Dogfen gyngor:

# Drafftio dwyieithog, cyfieithu a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



## Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Manylion cyswllt:


- **Ffôn:** 0345 6033 221
- **E-bost:** post@comisiynyddygymraeg.cymru
- **Gwefan:** comisiynyddygymraeg.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT




**Nodyn pwysig:**

Mae gofyn statudol ar nifer o sefydliadau yng Nghymru i gydymffurfio â'r gyfundrefn safonau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nid yw'r ddogfen gyngor hon yn god ymarfer statudol dan y Mesur hwnnw ac felly ni ddylid cyfeirio ati wrth ddehongli'r safonau. Mater i sefydliadau yw penderfynu sut i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Wrth wneud hynny, gallant gyfeirio at y ddogfen hon. Ond ni fydd methiant i weithredu'n unol â'i hargymhellion yn golygu, o reidrwydd, fethiant i gydymffurfio â'r safonau.

I sefydliadau eraill bydd y ddogfen gyngor hon yn gymorth i gynnig gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf ac i weithredu mewn cyd-destun lle mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rhagair | 6 |
| 2 | Cyflwyniad | 7 |
| **Rhan 1: Drafftio dwyieithog** | | 9 |
| 3 | Manteision drafftio dwyieithog | 10 |
| 4 | Sut mae cefnogi swyddogion i roi cynnig arni? | 12 |
| 5 | Sut gall technoleg gwybodaeth gefnogi'r gwaith hwn? | 14 |
| | Cyfieithu peirianyddol yn y gweithle dwyieithog | 15 |
| **Rhan 2: Cyfieithu testun** | | 17 |
| 6 | Trefniadau cyfieithu testun | 18 |
| | Defnyddio cyfieithydd proffesiynol | 18 |
| | Creu uned gyfieithu fewnol lwyddiannus | 20 |
| | Cydweithio â sefydliadau tebyg | 22 |
| | Meithrin perthynas dda | 22 |
| 7 | Technoleg ac adnoddau eraill i hwyluso gwaith cyfieithwyr | 26 |
| | Meddalwedd cof cyfieithu | 26 |
| | Peidio â thalu i gyfieithu'r un testun ddwywaith | 28 |
| | Meddalwedd cyfieithu peirianyddol | 31 |
| | Meddalwedd rheoli prosiectau cyfieithu | 33 |
| 8 | Llif gwaith cyfieithu testun: cyngor ymarferol | 34 |
| | Cynllunio ac amserlennu | 34 |
| | Paratoi testun fydd yn cael ei gyfieithu | 34 |
| | Anfon testun at gyfieithydd i'w gyfieithu | 35 |
| | Derbyn gwaith yn ôl gan gyfieithydd | 35 |
| | Paratoi testun i'w gyhoeddi | 36 |
| **Rhan 3: Defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb** | | 37 |
| 9 | Trefnu a chynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau dwyieithog | 38 |
| 10 | Defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i gynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau dwyieithog | 39 |
| | Y ddau ddull: cyfieithu ar y pryd a chyfieithu olynol | 40 |
| | Cyfieithu o'r Gymraeg ac i'r Gymraeg | 42 |
| | Arloesi yn y llysoedd: astudiaeth achos | 45 |

# Cynnwys


11 Cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau dwyieithog â chymorth cyfieithydd ar y pryd: cyngor ymarferol 47
- Cyfarfodydd cyhoeddus (pwyllgor, digwyddiad neu gynhadledd) 47
- Ystyriaethau wrth drefnu 47
- Trefnu cyfieithydd ar y pryd 47
- Hysbysebu'n briodol 48
- Cyn y cyfarfod 48
- Yn ystod y cyfarfod 49
- Canllaw i gadeiryddion 49
- Canllaw i fynychwyr cyfarfodydd dwyieithog 50
- Cyfarfodydd drwy gyswllt fideo 51

12 Cynnal cyfarfodydd preifat neu bersonol â chymorth cyfieithydd ar y pryd 52

13 Offer cyfieithu ar y pryd 55
- Systemau i gynorthwyo pobl fyddar neu drwm eu clyw 56

# 1 Rhagair

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yr egwyddor o hawliau i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Safonau'r Gymraeg sy'n dod â'r egwyddor hon yn y ddeddfwriaeth yn fyw, ac sy'n nodi beth ddylai sefydliadau ei wneud er mwyn sicrhau bod yr hawliau hynny'n cael eu gwireddu.

Dangosodd ein harolwg o iaith fewnol sefydliadau mai Saesneg yw prif iaith ysgrifenedig sefydliadau cyhoeddus Cymru ar y cyfan.[1] Nid yw hwn yn bolisi iaith ysgrifenedig, ffurfiol, ond yn hytrach mae'n rhywbeth sydd wedi ei wreiddio yn ddwfn mewn arfer a thraddodiad. Bu'n duedd gyffredinol i bwyso'n rhy drwm ar wasanaethau cyfieithu testun er mwyn creu dogfennau dwyieithog yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatblygu sgiliau swyddogion i ddrafftio testunau yn ddwyieithog eu hunain.

Golyga hyn ei bod hi'n debygol iawn bod staff sy'n gwbl abl yn y Gymraeg yn drafftio cynnwys yn ysgrifenedig yn Saesneg, gan mai dyna'r arfer. Ein nod yw y bydd yr adrannau ar ddrafftio dwyieithog yn y ddogfen hon yn arwain sefydliadau i edrych o'r newydd ar y ffordd maen nhw'n gweithredu ac ystyried sut gallant ddatblygu hyder a sgiliau unigolion i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gweithle.

Bydd rhai sefydliadau o dan ddyletswydd statudol i feithrin sgiliau Cymraeg eu swyddogion drwy asesu eu sgiliau a darparu hyfforddiant priodol yn sgil hynny. O adnabod a meithrin y sgiliau hyn y cam nesaf rhesymegol fyddai darparu cyd-destunau lle gall y sgiliau hyn gael eu defnyddio er budd i'r unigolyn a'r sefydliad. Mae'r ddogfen hon hefyd yn pwysleisio o'r cychwyn cyntaf fanteision drafftio dwyieithog i sefydliadau a phwysigrwydd meithrin sgiliau ieithyddol swyddogion er mwyn sicrhau testunau neu gyfarfodydd dwyieithog o'r radd flaenaf.

Bydd rhywfaint o gynnwys y ddogfen hon yn gyfarwydd i'r rhai sydd wedi gweithio yn y maes ers amser; ond rydym wedi ei haddasu fel ei bod yn cydnabod gofynion newydd safonau'r Gymraeg a datblygiadau diweddar yn y maes. Gobeithiwn y bydd y ddogfen gyngor yn cynnig arweiniad clir i chi ar sut i fynd i'r afael â'r gofynion newydd sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac yn gydymaith defnyddiol wrth i chi gynllunio'ch gwasanaethau a'ch dull o weithredu yn y dyfodol.



[1] *Mesur o Lwyddiant: Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2017–18:* http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/REF18075%20-%20CD004%20-%20Sicrwydd%20Report%20-%20STP2.pdf (Cyrchwyd 12 Chwefror 2019).

# 2 Cyflwyniad

2.1 Nod y ddogfen hon yw cynorthwyo sefydliadau i wneud defnydd arloesol, effeithiol a chyfrifol o wasanaethau cyfieithu o bob math er mwyn hwyluso cynnig gwasanaethau dwyieithog o'r ansawdd uchaf.

## Cynulleidfa

2.2 Prif gynulleidfa'r ddogfen yw llunwyr polisi, penaethiaid gwasanaeth neu swyddogion sy'n gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau priodol mewn lle i alluogi sefydliadau i ddarparu testunau dwyieithog. Bydd o ddiddordeb penodol hefyd i'r sawl sy'n meddu ar sgiliau drafftio dwyieithog neu sy'n dymuno datblygu'r sgiliau hynny ymhellach.

2.3 Er y bydd adrannau o'r ddogfen yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol i gyfieithwyr, nid ar eu cyfer nhw y'i bwriedir yn bennaf, ond yn hytrach ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am drefnu neu gomisiynu gwasanaethau cyfieithu mewn sefydliad. Er hynny, wrth osod trefniadau cyfieithu a drafftio yn eu lle dylid trafod a rhannu gwybodaeth â'r sawl y bydd y trefniadau yn eu heffeithio, boed nhw'n gyfieithwyr neu'n swyddogion eraill.

2.4 Bydd llawer o gynnwys y ddogfen gyngor hon eisoes yn gyfarwydd i rai unigolion a sefydliadau ac yn adlewyrchu eu harferion presennol o bosibl. I sefydliadau eraill neu unigolion sy'n dod at y maes hwn am y tro cyntaf gobeithir y bydd yn cynnig trosolwg cynhwysfawr o'r maes. Mae hwn hefyd yn faes sy'n datblygu'n gyson o ganlyniad i ddatblygiadau technolegol neu ddyletswyddau ieithyddol newydd ac mae ymgais i ymateb i'r rheini yn y ddogfen hon.

2.5 Bydd sefyllfa, trefniadau ac anghenion sefydliadau unigol yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar faint y sefydliad, natur ei waith, a'r gofynion statudol sydd arno i ddarparu gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog. O'r herwydd ni fydd pob elfen o'r ddogfen gyngor hon yn gwbl berthnasol – nac yn bosibl – i bob sefydliad.

2.6 Mae'r ddogfen hefyd yn cydnabod bod sawl dull o fynd ati ac nid oes modd iddi gwmpasu pob amgylchiad posibl wrth gwrs. Nid yw ychwaith yn gallu deddfu ynghylch y ffordd orau i fynd ati: yn hytrach nodir ynddi nifer o egwyddorion, awgrymiadau ac ystyriaethau ynghyd ag enghreifftiau o arferion gorau er mwyn i sefydliadau eu cymhwyso i'w sefyllfaoedd eu hunain.

## Strwythur

2.7 Rhennir y ddogfen yn dair rhan er mwyn mynd i'r afael â'r tri phrif ddull o gynllunio gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd:


- **Rhan 1: Drafftio dwyieithog**
- **Rhan 2: Cyfieithu testun**
- **Rhan 3: Defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb.**

2.8 Mae modd croesgyfeirio rhwng yr adrannau, fodd bynnag, gan fod ystyriaethau penodol i un dull yn aml yn berthnasol neu'n rhoi cyd destun pellach i'r llall.

2.9 Rhoddir sylw penodol i'r materion isod:

- Beth yw manteision drafftio dogfennau dwyieithog?
- Sut mae sicrhau trefniadau gwaith cyfieithu effeithiol mewn sefydliad er mwyn sicrhau ansawdd a gwerth am arian?
- Pa gymorth gall technoleg gwybodaeth ei roi i'r sawl sy'n drafftio dogfennau, cyfieithwyr ac i sefydliadau sy'n comisiynu gwaith?
- Sut mae trefnu a chynnal digwyddiadau sy'n caniatáu i bobl gymryd rhan yn eu dewis iaith?

# Rhan 1:
# Drafftio dwyieithog



# 3 Manteision drafftio dwyieithog

3.1 Y ffordd fwyaf hwylus o ddarparu testunau dwyieithog i'r cyhoedd fel arfer yw drwy annog swyddogion i ddrafftio testun yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Dyma yn ddi-os yw'r ffordd orau o sicrhau nad oes angen dibynnu ar gyfieithu popeth er mwyn cynnig gwasanaethau dwyieithog, ac o sicrhau y gwneir yn fawr o sgiliau ieithyddol swyddogion.

3.2 Gall drafftio dwyieithog fod yn rhatach mewn rhai amgylchiadau na chomisiynu cyfieithiadau a byddai'n fanteisiol i sefydliadau ystyried sut a ble y defnyddir sgiliau swyddogion orau. Er enghraifft, gall fod yn fwy hwylus a chost effeithiol i swyddogion ddrafftio testunau byrion megis taflenni, negeseuon e-bost neu destun tudalen we yn ddwyieithog eu hunain. Ar y llaw arall bydd defnyddio cyfieithydd i ddarparu cyfieithiad o ddogfen hir neu dechnegol yn rhyddhau swyddog i ymgymryd â dyletswyddau eraill.

3.3 Ni ellir gorbwysleisio manteision cyffredinol drafftio dwyieithog i sefydliadau o bob math. Mae manteision amlwg i'r dull hwn o weithio o safbwynt:

- bod â gwell rheolaeth dros amserlen cynhyrchu'r testun dwyieithog
- sicrhau bod gan yr awdur y rheolaeth bennaf dros y modd y cyflwynir negeseuon ac ansawdd yr ysgrifennu yn y ddwy iaith
- sicrhau y defnyddir y derminoleg gywir a phriodol a bod y testun yn y ddwy iaith yn dilyn arddull tŷ'r sefydliad
- galluogi swyddogion i gynnal a datblygu eu sgiliau ieithyddol yn y ddwy iaith.

3.4 Mae manteision pellach i ddrafftio negeseuon yn ddwyieithog ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol wrth gwrs, a chadw mewn cof natur gyfnewidiol ac ymatebol y cyfryngau hynny. Wrth fod â swyddogion wrth law sy'n hyderus yn drafftio'n ddwyieithog, mae modd:

- ymateb yn gyflym i unrhyw straeon newyddion perthnasol, sylwadau neu gwestiynau a dderbynnir a chynnal sgwrs 'ar y pryd' â dilynwyr
- manteisio ar natur byr a bachog y cyfryngau cymdeithasol ac arbrofi â defnyddio idiomau, cyfeiriadaeth ddiwylliannol ac efallai iaith fwy tafodieithol neu lafar gan ddibynnu ar y gynulleidfa darged
- addasu testun ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol yn hytrach na'i gyfieithu'n uniongyrchol.

3.5 Yn ogystal â'r manteision ymarferol hyn mae modd i ddrafftio'n ddwyieithog gryfhau'r mynegiant yn y ddwy iaith gan godi safon cyhoeddiadau yn y pen draw. Mae meddwl am sut y gellid cyfleu'r un wybodaeth yn yr iaith arall yn gallu bod yn fodd gwych i:

- amlygu gwendidau yn y gwreiddiol
- gorfodi'r awdur i edrych eto ar unrhyw agweddau amwys yn y naill iaith a'r llall
- sicrhau bod termau, enwau a dyfyniadau yn fanwl gywir ac yn cyfateb i'w gilydd yn y ddwy iaith
- sicrhau gwreiddioldeb yng ngeiriad hysbysebion, sloganau, enwau prosiectau neu fentrau.

## 4 Sut mae cefnogi swyddogion i roi cynnig arni?

4.1 Mae sawl peth ymarferol y gallwch ei wneud i annog a chefnogi swyddogion i ddrafftio'n ddwyieithog. Y pwysicaf yn ddi-os yw sefydlu ethos lle mae drafftio dwyieithog yn rhan naturiol o weithgarwch sefydliad. **Sicrhewch felly eich bod chi'n cyfathrebu'n glir wrth swyddogion fod hwn yn ddull o weithio a ffefrir gennych a bod pob cefnogaeth i swyddogion roi cynnig ar ddrafftio dogfennau dwyieithog.**

Gall hefyd fod yn fanteisiol i chi:

- Annog swyddogion i roi cynnig ar ddrafftio darnau byr fel man cychwyn.
- Cydnabod y broses ddrafftio dwyieithog yn rhan ffurfiol o amserlen paratoi dogfen neu gyhoeddiad.
- Trefnu bod swyddogion yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth addas i'w cynorthwyo i wneud yn fawr o'u sgiliau ieithyddol a'u datblygu ymhellach.
- Buddsoddi mewn datblygu sgiliau drafftio Cymraeg swyddogion drwy ddarparu neu dynnu sylw at adnoddau ieithyddol sylfaenol y cyfeirir atynt yn adran pump isod neu drwy ddarparu hyfforddiant gloywi iaith priodol.
- Sicrhau bod gwasanaeth prawfddarllen mewn lle er mwyn cynorthwyo swyddogion i lunio testunau addas i'w cyhoeddi.
- Annog swyddogion a chyfieithwyr i gydweithio er mwyn llunio rhestrau terminoleg ar gyfer meysydd penodol.
- Annog a hwyluso cyfleoedd i swyddogion ddarllen testunau Cymraeg safonol o bob cywair (llenyddiaeth, cylchgronau, erthyglau newyddion) er mwyn cryfhau eu sgiliau a'u crebwyll ieithyddol yn gyffredinol.

4.2 Os ydych chi'n sefydliad sydd ag uned gyfieithu fewnol gellid ystyried datblygu sgiliau eich cyfieithwyr er mwyn iddynt gynorthwyo swyddogion i ddrafftio dogfennau dwyieithog. Byddai modd iddynt gynnig hyfforddiant neu wasanaeth mentora i swyddogion sy'n dymuno drafftio'n ddwyieithog yn ogystal â gwasanaeth prawfddarllen a chynnig adborth ar eu hymdrechion. Byddai hyn yn fodd o ddatblygu sgiliau a chyfleoedd gwaith cyfieithwyr pe baent yn dymuno hynny ac yn cynnig amrywiaeth i'w dyletswyddau dyddiol.

4.3 Os nad oes uned gyfieithu fewnol yn eich sefydliad gellid ystyried sefydlu cytundeb â chyfieithwyr, golygyddion neu arbenigwyr ieithyddol allanol er mwyn cynnig y gwasanaeth uchod i swyddogion sy'n dymuno drafftio'n ddwyieithog. Gellid hefyd sefydlu patrwm o fod ag un cyfieithydd 'ar-alw' i allu prawfddarllen testunau byrion yn y fan a'r lle er mwyn eu cyhoeddi'n syth; byddai trefn o'r fath yn ddefnyddiol iawn yng nghyd-destun negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

4.4 Bydd angen prawfddarllen testunau dwyieithog sy'n cael eu drafftio gan swyddogion yn ofalus cyn iddynt gael eu cyhoeddi neu'u hargraffu, yn union fel y dylid gwneud â thestunau dwyieithog a ddarperir gan gyfieithwyr proffesiynol.[2]

Noder bod gofyn am sgiliau ieithyddol da yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn i swyddogion allu rhoi cynnig ar ddrafftio dwyieithog at ddibenion cyhoeddus ac nad yw medru'r Gymraeg o reidrwydd yn golygu y bydd gwaith ysgrifenedig swyddogion o safon ddigonol i'w gyhoeddi ar y cychwyn.

Mater arall, wrth gwrs, yw negeseuon, cofnodion, ac adroddiadau mewnol sefydliad a dylid rhoi pob anogaeth i swyddogion roi cynnig ar ddefnyddio'u Cymraeg yn y cyd-destunau hyn. Drwy ymarfer defnyddio'u Cymraeg yn fewnol gall swyddogion fagu hyder a sgiliau i symud ymlaen at ddrafftio testunau cyhoeddus maes o law. Ceir awgrymiadau ymarferol am sut mae cefnogi swyddogion sy'n dymuno drafftio'n ddwyieithog yn adran pump isod.



[2] Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig gwasanaeth prawfddarllen am ddim i fusnesau a rhai sefydliadau trydydd sector, hyd at 1,000 o eiriau. Gweler yr Is-wefan Hybu i fusnesau a sefydliadau trydydd sector am ragor o wybodaeth: http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu.

## 5 Sut gall technoleg gwybodaeth gefnogi'r gwaith hwn?

5.1 Mae cymhorthion o bob math ar gael i gynorthwyo pobl i ysgrifennu'r Gymraeg yn gywir ac i ddrafftio dogfennau dwyieithog. Bydd dyletswyddau statudol ar rai sefydliadau i ddarparu peth o'r adnoddau a ddisgrifir isod, ond er mwyn cefnogi drafftio dwyieithog gall fod o gymorth i sefydliadau o bob math sicrhau bod swyddogion yn:

- Defnyddio rhyngwynebau Cymraeg meddalwedd sydd ar gael yn Gymraeg.
- Gwybod sut mae tagio iaith dogfen yn gywir, e.e. nodi bod testun Cymraeg yn destun Cymraeg wrth ddefnyddio Microsoft Word. Mae rhaglenni Microsoft Office, o osod Pecyn Rhyngwyneb Cymraeg arnynt, yn gwirio sillafu o fewn dogfennau os nodir mai Cymraeg yw iaith y ddogfen (ceir rhagor o wybodaeth am hyn ar wefan y Comisiynydd a cheir fideos hwylus yn dangos sut mae gosod peth o'r feddalwedd hon ar wefan Llywodraeth Cymru Sut i ... ddefnyddio technoleg Cymraeg).
- Defnyddio meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg megis Cysill, sy'n rhan o becyn Cysgliad. Gweler gwefan Cysgliad am ragor o wybodaeth ynghylch prynu'r pecyn meddalwedd hwn sydd hefyd yn cynnwys geiriadur Cysgeir: Cysgliad. Mae fersiwn o Cysill hefyd ar gael yn rhad ac am ddim ar lein at ddiben gwirio cyfieithiadau byrion: Cysill Ar-lein ac mae modd llwytho fersiwn o Cysill am ddim ar gyfer y Mac.
- Ymwybodol o'r geiriaduron a'r cyfeirlyfrau (printiedig ac electronig) sydd ar gael iddynt a bod ganddynt fynediad hwylus atynt. Mae nifer o adnoddau geiriadurol a therminoleg safonol ar gael yn rhad ac am ddim ar lein. Ceir rhestr hwylus ohonynt ar y dudalen Termau a geiriaduron ar wefan y Comisiynydd: Termau a geiriaduron.
- Ymwybodol o Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ar wefan y Comisiynydd er mwyn gwirio sut mae sillafu enwau lleoedd mewn ffordd safonol a gwirio a oes ffurfiau gwahanol yn bodoli yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Derbyn hyfforddiant ynghylch sut i chwilio am wybodaeth yn y cyfeirlyfrau hyn a sut i ddefnyddio'r wybodaeth mewn ffordd addas.
- Derbyn hyfforddiant ynghylch pa wasanaethau cyfieithu peirianyddol sydd ar gael iddynt a sut mae eu defnyddio'n gyfrifol ac yn effeithiol.

5.2 Gall rhai mathau o feddalwedd cyfieithu hwyluso gwaith swyddogion sy'n drafftio dogfennau dwyieithog hefyd drwy gynnig un ai cydrannau o gyfieithiadau blaenorol neu gyfieithiadau peirianyddol i'w derbyn, haddasu neu'u golygu. Trafodir y technolegau hyn a'u manteision mewn rhagor o fanylder yn adran saith isod ond byddai eu defnyddio yn arbed amser ac ymdrechion swyddogion gan sicrhau cysondeb â thestunau blaenorol hefyd.

5.3 Byddai'n rhaid i'r defnyddiwr ddeall cyfyngiadau'r feddalwedd gan olygu ac addasu'r cyfieithiadau yn ôl y gofyn er mwyn iddynt gyrraedd y safonau disgwyliedig. Byddai'n rhaid hefyd i'r sefydliad sicrhau bod ganddo weithdrefnau mewnol addas mewn lle cyn defnyddio'r feddalwedd yn y modd hwn, gan gynnwys darparu arweiniad ynghylch materion cyfrinachedd ayb.

## Cyfieithu peirianyddol yn y gweithle dwyieithog

5.4 Gellid ystyried hefyd i ba raddau y mae modd i feddalwedd cyfieithu peirianyddol neu awtomatig hwyluso cyfathrebu dwyieithog mewn gweithle dwyieithog. Er enghraifft, gall meddalwedd cyfieithu peirianyddol gynorthwyo pobl nad ydynt yn deall y Gymraeg i gael syniad bras o gynnwys dogfen neu e-bost. Byddai hyn o gymorth mawr mewn gweithle dwyieithog lle bo unigolion yn dymuno gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a lle nad yw eu cydweithwyr yn deall yr iaith. Er enghraifft, gallai gweithiwr nad yw'n medru'r Gymraeg ddeall yn fras gynnwys dogfen neu e-bost a ysgrifennwyd gan gydweithiwr arall yn Gymraeg heb fod angen i'r sawl sy'n drafftio gyfieithu popeth. Noder, fodd bynnag, na ellir dibynnu'n llwyr ar gyfieithu peirianyddol er mwyn ateb negeseuon.

5.5 Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi arloesi yn y maes hwn drwy gydweithio â Microsoft er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn un o'r ieithoedd a gynigir gan Microsoft Translator. Golyga hyn fod modd gweld cyfieithiadau peirianyddol ym mhecynnau Microsoft, gan gynnwys Word ac Outlook, heb i'r defnyddiwr orfod defnyddio meddalwedd cyfieithu peirianyddol allanol.

5.6 O fabwysiadu'r arfer hwn dylid llunio canllawiau manwl i swyddogion ynghylch sut orau i ddefnyddio'r feddalwedd hon gan dynnu sylw penodol at y manteision a'r peryglon fel ei gilydd.

5.7 Yn un peth byddai'n rhaid pwysleisio mai bras gyfieithiad yn unig a ddarperir, ac mae'n bosibl bod pwyslais penodol neu fanylion yn cael eu colli yn y cyfieithiad. Ni ellir dibynnu'n llwyr ar gywirdeb testun a gynhyrchir gan beiriant, hyd yn oed os yw'r cyfieithiad hwnnw ar yr olwg gyntaf yn ymddangos yn daclus ac yn gywir. Er bod y canlyniadau a geir o ddefnyddio'r math hwn o feddalwedd yn dda iawn ar y cyfan – ac yn gwella o hyd wrth i'r dechnoleg ddatblygu – nid ydynt yn ddibynadwy bob amser, hyd yn oed er mwyn darparu bras gyfieithiadau at ddibenion trafodaethau mewnol. Er enghraifft, nid yw'r feddalwedd yn adnabod y negydd (fel y gair 'nid') bob tro gan gynhyrchu cyfieithiadau ag ystyr cwbl groes i'r gwreiddiol!

5.8 Yn sicr, ni ellir dibynnu'n gyfan gwbl ar feddalwedd o'r math hwn i gynnig cyfieithiadau hwylus a chyflym, ac ni ddylid cyhoeddi cyfieithiad a ddarperir gan beiriant heb iddo gael ei olygu'n drylwyr gan gyfieithydd dynol. Ni ellir chwaith ddibynnu ar gyfieithu peirianyddol i ddarparu'r cyfieithiad mwyaf cryno, rhywbeth sy'n berthnasol wrth feddwl am y cyfyngu ar nifer o lythrennau a ganiateir mewn neges ar Twitter, er enghraifft.

Ni ddylid dibynnu ar feddalwedd cyfieithu peirianyddol ar draul datblygu sgiliau ieithyddol swyddogion a chynyddu hyder swyddogion i ddarllen a deall Cymraeg ysgrifenedig drostynt eu hunain. Ond gall defnyddio'r feddalwedd hon gyfrannu at ddatblygu sgiliau a chynyddu hyder.



# Rhan 2:
# Cyfieithu testun



# 6 Trefniadau cyfieithu testun

6.1 Os nad oes swyddogion ar gael i ddrafftio'n ddwyieithog bydd angen i sefydliad sicrhau bod trefniadau mewn lle i ddarparu gwasanaethau cyfieithu. Mae sut y bydd sefydliad yn mynd ati i gyfieithu dogfennau o'r Gymraeg i'r Saesneg yn fater i'r sefydliad ei hun:

- Bydd gan rai sefydliadau unedau cyfieithu mewnol a fydd yn diwallu'r gofynion yn llawn.
- Bydd rhai sefydliadau yn contractio'r gwaith cyfieithu i gyd yn allanol.
- Bydd sefydliadau eraill yn defnyddio cyfuniad o gyfieithwyr mewnol a chontractwyr allanol.
- Bydd eraill eto yn rhannu gwaith cyfieithu â sefydliadau eraill tebyg, e.e. drwy gytundeb lefel gwasanaeth neu un ganolfan yn darparu ar gyfer y sector cyfan.

6.2 Nodir egwyddorion ac ystyriaethau yn yr adran hon sy'n berthnasol i bob un o'r sefyllfaoedd uchod mewn gwirionedd. Ceir cyngor ymarferol manylach yn adran wyth ynghylch y broses o drefnu cyfieithiad unigol ynghyd ag arweiniad pellach am sut y gall technoleg gwybodaeth hwyluso gwaith cyfieithu gan greu arbedion ariannol sylweddol yn adran saith.

### Defnyddio cyfieithydd proffesiynol

6.3 Rhaid pwysleisio nad yw pawb sy'n siarad dwy iaith o reidrwydd yn gallu cyfieithu.[3] Mae cyfieithu yn grefft arbenigol sy'n gofyn am sgiliau a phrofiad penodol er mwyn cynhyrchu cyfieithiadau proffesiynol o'r safon uchaf. Yr egwyddor bwysicaf yn ddi-os felly yw y dylid defnyddio cyfieithydd proffesiynol a chymwys i ymgymryd â phob darn o waith cyfieithu testun ar ran sefydliad.[4]

6.4 Mae defnyddio cyfieithydd sy'n aelod o gymdeithas broffesiynol yn fodd o sicrhau eich bod chi'n defnyddio cyfieithydd cymwys. Disgwylir i aelodau cymdeithas broffesiynol ymrwymo i godau ymddygiad sy'n amlinellu'r safonau proffesiynol y disgwylir i aelodau lynu atynt wrth eu gwaith er mwyn iddynt gynnig y gwasanaeth gorau posibl i'w cleientiaid. Bydd y codau ymddygiad hyn gan amlaf yn ymrwymo'r cyfieithwyr i safonau penodol yn ymwneud â chyfrinachedd a didueddrwydd, er enghraifft.[5]

[3] Dylid pwysleisio yn y fan hon fod cyfieithu yn sgìl tra gwahanol i ddrafftio dwyieithog. Gall swyddogion dwyieithog ddrafftio eu testunau eu hunain yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf gan addasu eu dewis o eirfa, cystrawen a chywair yn unol â'u medr ieithyddol: mae ymateb i waith awdur arall a'i drosi i iaith arall gan gyfleu ystyr a naws y gwreiddiol yn ffyddlon a chywir heb ddilyn yn slafaidd gystrawen yr iaith wreiddiol yn gofyn am hyfforddiant a sgiliau penodol iawn.
[4] Sylwer: Nid oes system o gyfieithwyr sydd wedi tyngu llw (sworn translators) yn y Deyrnas Unedig fel y ceir mewn rhai gwledydd eraill sy'n gweithredu cyfraith sifil.
[5] Dyma ddolen at God Ymddygiad Proffesiynol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru er gwybodaeth: https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/dod-o-hyd-i-gyfieithydd/ymddygiad-proffesiynol-1 (Cyrchwyd 12 Chwefror 2019).

6.5 Mantais arall o ddefnyddio cyfieithydd sy'n aelod o gymdeithas broffesiynol yw'r pwys y mae cymdeithasau o'r fath yn ei roi ar hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Anogir aelodau i ddilyn cynllun datblygu proffesiynol parhaus i gadw eu gwybodaeth a'u sgiliau yn gyfredol er mwyn cynnig gwasanaeth o safon uchel i'w cleientiaid.

Mae'n bwysig gwirio bod gan gyfieithydd aelodaeth broffesiynol ac nad oes unrhyw risg bod y gwaith yn cael ei is-gontractio i gyfieithwyr eraill sydd ddim ag aelodaeth briodol.



6.6 Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ('y Gymdeithas') yw'r unig gymdeithas broffesiynol sy'n cynrychioli'r proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg yn benodol. Mae peiriant chwilio hwylus ar wefan y Gymdeithas sy'n caniatáu i chi chwilio am gyfieithydd addas at eich dibenion chi: Dod o hyd i gyfieithydd. Mae rhai cyfieithwyr cymwys sy'n cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac fel arall yn perthyn i gymdeithasau proffesiynol eraill megis y Chartered Institute of Linguists (CIOL: https://www.ciol.org.uk) a'r Institute of Translation and Interpreting (ITI: http://www.iti.org.uk/).

6.7 Mae'n rhaid i gyfieithwyr lwyddo yn arholiadau'r Gymdeithas er mwyn dod yn aelodau ohoni. Mae dwy lefel o aelodaeth cyfieithu testun gan y Gymdeithas, sef aelodaeth Sylfaenol ac aelodaeth Gyflawn. Yn ôl y Gymdeithas mae disgwyl i aelodau sydd wedi llwyddo yn arholiadau Cyflawn y Gymdeithas gyflwyno gwaith na fydd angen unrhyw olygu pellach arno. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynnig Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad am ffi – mae'r gwasanaeth ymgynghorol hwn yn cynnig asesu ansawdd cyfieithiad pe bai rhywun yn dymuno cwyno am ansawdd gwaith aelod o'r Gymdeithas.

6.8 Dylid sicrhau hefyd wrth brynu gwasanaethau cyfieithu gan ddarparwyr allanol fod trefniadau priodol mewn lle o safbwynt:

- yswiriant indemniad
- gweithdrefnau rheoli ansawdd cyfieithu
- proses gwyno mewn lle i ddelio â chwynion am ansawdd cyfieithu.

## Creu uned gyfieithu fewnol lwyddiannus

6.9 Mae bod ag uned gyfieithu fewnol o fantais amlwg i sefydliad gan ddarparu gweithlu o gyfieithwyr proffesiynol sydd ar alw i ymateb i anghenion cyfieithu'r sefydliad a rhoi blaenoriaeth i waith yn unol â pholisïau'r sefydliad dan sylw. Mae modd hefyd i unedau o'r fath gyfrannu'n sylweddol at ethos Gymraeg sefydliad a gellid defnyddio arbenigedd a sgiliau ieithyddol cyfieithwyr i gynorthwyo swyddogion eraill y sefydliad i ddrafftio dogfennau dwyieithog fel y nodir yn 4.2 uchod. Bydd hyn yn ei dro yn cynorthwyo'r sefydliad i gyrraedd nodau polisi ehangach mewn perthynas â'r Gymraeg a sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei ddyletswyddau ieithyddol mewn modd cynaliadwy.

6.10 Mae'n bosibl na fyddai'r uned gyfieithu â chapasiti digonol i ymateb i holl ofynion cyfieithu sefydliad, fodd bynnag. Mewn achosion o'r fath bydd gan yr uned rôl allweddol yn rheoli ansawdd gan sicrhau bod pob darn o waith a gyflawnir ar ran sefydliad yn gyson ag arddull tŷ a therminoleg safonol y sefydliad dan sylw.

6.11 Bydd pob uned gyfieithu yn cael ei rhedeg yn wahanol, a mater i'r sefydliad ei hun yw penderfynu ar faterion yn ymwneud â llywodraethiant uned o'r fath. Nodir isod rai ystyriaethau cyffredinol neu gynghorion ymarferol a allai fod o gymorth wrth sefydlu uned gyfieithu fewnol:

### Strwythur a sgiliau staff

- Mae'n fanteisiol bod yr uned gyfieithu wedi ei lleoli mewn man priodol yn strwythur y sefydliad, er enghraifft yn uned y prif weithredwr neu'r tîm gwasanaethau canolog. Gallai hi fod yn fanteisiol hefyd bod cyswllt uniongyrchol rhwng yr uned gyfieithu a'r adrannau sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth y sefydliad â dyletswyddau iaith, neu am wefan a gweithgareddau marchnata neu gysylltiadau cyhoeddus sefydliad.
- Ceisio sicrhau bod strwythur staffio priodol ym mhob uned gyfieithu. Mae darparu llwybrau gyrfa clir a phriodol i gyfieithwyr yn fodd o ddenu, datblygu a chadw cyfieithwyr da. Gall fod yn fanteisiol o ran cost a datblygu'r gweithlu i'r strwythur hwnnw gynnwys cyfieithwyr ar bob lefel – o gyfieithwyr profiadol â sgiliau mentora cryf i gyfieithwyr dan hyfforddiant. Dylid ystyried strwythur cyflogau'r cyfieithwyr hefyd gan geisio sicrhau ei fod yn cydnabod eu profiad, eu sgiliau a'u cymwysterau.

- Sicrhau bod sylw'n cael ei roi i ddatblygiad proffesiynol parhaus cyfieithwyr a bod rhaglen o hyfforddiant addas yn cael ei darparu er mwyn meithrin eu sgiliau a sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o dueddiadau neu ddatblygiadau newydd yn y maes.
- Yn rhan o hyn gellid ystyried paratoi cyfieithwyr i sefyll arholiadau cymdeithas broffesiynol neu ennill cymhwyster academaidd perthnasol. Er enghraifft, mae'r cwrs Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol a ddatblygwyd o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac a gynigir gan Brifysgol Aberystwyth yn caniatáu i fyfyrwyr astudio ar gyfer Tystysgrif, Diploma neu MA llawn: Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol. Mae modd hefyd i gyfieithwyr ddilyn modiwlau unigol sydd o ddiddordeb iddynt.
- Annog cyfieithwyr i ddatblygu arbenigedd mewn meysydd penodol ac i gywain tystiolaeth er mwyn profi'r arbenigeddau hynny. Er enghraifft, mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi sefydlu Meysydd Arbenigedd Proffesiynol er mwyn cydnabod arbenigedd ei haelodau ym meysydd deddfwriaeth a chyfathrebu.
- Sicrhau bod adnoddau a meddalwedd addas i hwyluso gwaith yr uned gyfieithu gan gynnwys meddalwedd prosesu geiriau, meddalwedd cof cyfieithu, meddalwedd rheoli llif gwaith cyfieithu, meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg, cyfeirlyfrau printiedig safonol a dolenni at gronfeydd data o derminoleg addas. Gweler 5.1 ac adran saith isod.
- Sicrhau hefyd fod cyfieithwyr yn derbyn hyfforddiant priodol yn y meysydd hyn – yn benodol ym maes technoleg cyfieithu – er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ac yn gallu manteisio arnynt i wella a chyflymu'r broses gyfieithu. Mae rhai datblygwyr meddalwedd yn darparu gweminarau hyfforddi yn rhad ac am ddim i gwsmeriaid.

### Gweinyddu

- Sicrhau bod dulliau addas o brosesu gwaith cyfieithu mewn lle, gan gynnwys derbyn, cofnodi, blaenoriaethu, cyfieithu a dychwelyd y gwaith.
- Sicrhau hefyd fod cefnogaeth weinyddol ddigonol gan y cyfieithwyr er mwyn sicrhau bod y llif gwaith cyfieithu'n llyfn ac y gwneir y defnydd gorau o amser a sgiliau'r cyfieithwyr.

### Defnyddio'r uned gyfieithu

- Codi ymwybyddiaeth pob swyddog mewn sefydliad o fodolaeth yr uned gyfieithu a'r sgiliau y mae'n eu cyfrannu at waith y sefydliad.
- Llunio canllawiau i swyddogion ynghylch sut y dylid bwrw ati i gomisiynu gwaith cyfieithu a beth sy'n rhesymol iddynt ei ddisgwyl gan y cyfieithwyr o safbwynt amserlenni dychwelyd gwaith ayb. Gellid cyhoeddi'r canllawiau hyn mewn man canolog megis mewnrwyd y sefydliad a dylid sicrhau bod swyddogion newydd yn ymwybodol ohonynt.

## Cydweithio â sefydliadau tebyg

6.12 Gallai sefydliadau adnabod cyrff tebyg (sefydliadau sy'n gweithio yn yr un rhanbarth o bosibl neu sy'n gweithio mewn sectorau tebyg) ac ystyried dulliau o gydweithio wrth gomisiynu gwaith cyfieithu;[6] drwy sefydlu contract cyfieithu ar y cyd neu drwy bennu un ganolfan i fod yn gyfrifol am waith cyfieithu ar gyfer maes neu sector penodol. Byddai modd iddynt hefyd ddod i gytundeb ynghylch rhannu cofau cyfieithu neu restrau terminoleg â sefydliadau eraill er mwyn sicrhau cysondeb o ran geirfa ac arddull ar draws y sector a sicrhau arbedion ariannol yn y broses.

6.13 Byddai manteision amlwg i sefydliadau o gydweithio i gomisiynu gwaith cyfieithu o safbwynt:

- sicrhau arbedion ariannol
- codi ansawdd y gwaith terfynol
- sicrhau bod y sefydliadau unigol yn abl i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol.

6.14 Byddai'n fodd o ddatblygu arbenigedd cyfieithwyr penodol mewn sectorau penodol gan ganiatáu iddynt ddod i adnabod geirfa, arddull ac anghenion sector penodol yn drwyadl.

6.15 Byddai'n arwain hefyd at fanteision i ddefnyddwyr gwasanaethau fyddai'n gallu mwynhau cysondeb o ran safon y gwasanaeth ar draws y sector.

6.16 Hyd yn oed pe na bai sefydliad yn dewis cydweithio'n ffurfiol â sefydliadau eraill wrth gomisiynu gwaith cyfieithu gallai ddewis rhannu cofau cyfieithu perthnasol neu restrau terminoleg a geirfa â sefydliadau eraill neu'r cyhoedd er mwyn cyfrannu at hwyluso gwaith cyfieithu yn gyffredinol.

## Meithrin perthynas dda

6.17 Pa bynnag ffordd y bydd eich sefydliad chi'n dewis caffael gwasanaeth cyfieithu mae'n fanteisiol meithrin perthynas weithio dda â'ch cyfieithwyr. Gall sefydlu perthynas weithio effeithiol lle y croesewir adborth gan y cyfieithwyr a'r cleientiaid fel ei gilydd ynghyd â thrafodaeth agored wella ansawdd cyhoeddiadau a lunnir ar ran sefydliad yn y pen draw.

[6] Enghraifft o hyn yw'r gwaith a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru i lunio cytundeb fframwaith ar gyfer gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer y sector cyhoeddus i gyd. Rheolir y cytundeb hwn gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac mae'r cytundeb fframwaith newydd yn fyw ers 1 Tachwedd 2018. Y brif fantais i ddefnyddwyr y cytundeb hwn yw bod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ymgymryd â'r broses dendro ar eu rhan gan arbed costau a bod ansawdd y darparwyr wedi cael eu hasesu. Noder mai un o feini prawf y cytundeb yw bod y darparwr yn aelod cyflawn o gymdeithas broffesiynol.

6.18 Un ffordd ymarferol o sefydlu perthynas â'r cyfieithwyr yw drwy bennu aelod o staff i fod yn ddolen gyswllt rhwng y sefydliad a'r cyfieithydd ac i gadw cofnod manwl o'r gwaith a gyfieithir, megis nifer y geiriau ac amserlen cwblhau'r gwaith.[7] Bydd hyn yn gymorth i:

- osgoi dryswch neu gamddealltwriaeth wrth gomisiynu gwaith cyfieithu
- osgoi ailadrodd cyfieithu testunau tebyg yn y dyfodol gan fod cofnod o'r hyn a gyfieithwyd eisoes yn bodoli
- meithrin arbenigedd y swyddog hwnnw a'i ymwybyddiaeth o anghenion ac arferion cyfieithu'r sefydliad
- sefydlu un pwynt cyswllt hwylus i'r cyfieithwyr o fewn y sefydliad er mwyn cydlynu ymholiadau'n gyflym ayb.

6.19 Wrth gomisiynu gwaith yn allanol, mae'n bwysig sicrhau bod telerau ac amserlen ar gyfer y gwaith yn cael ei gytuno'n glir ymlaen llaw. Dyma rai pwyntiau i'w cofio:

- Fel arfer bydd cyfieithydd yn codi tâl am ei waith fesul 1,000 o eiriau, ond y mae gan y rhan fwyaf o gyfieithwyr isafbris.
- Os ydych chi'n defnyddio cyfieithwyr i gyfieithu negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yna byddai o gymorth cynllunio negeseuon ymlaen llaw a darparu gwerth pythefnos neu fis o negeseuon i'w cyfieithu ar y tro lle bo modd.
- Weithiau bydd angen codi tâl fesul awr, er mwyn cydnabod yr ymdrech a'r egni creadigol sydd ynghlwm wrth gyfieithu enwau brand, sloganau neu ddeunydd marchnata, er enghraifft.
- Dylid holi ymlaen llaw a yw'r cyfieithydd yn codi TAW ai peidio.

6.20 Bydd angen dod i ddealltwriaeth ynghylch pa feddalwedd y mae cyfieithwyr yn eu defnyddio wrth eu gwaith ac ar ba ffurf y byddant yn dychwelyd y gwaith terfynol er mwyn sicrhau ei fod yn gydnaws â phrosesau ac anghenion y sefydliad. Bydd rhai sefydliadau sy'n comisiynu gwaith cyfieithu yn barod i osod eu meddalwedd nhw ar gyfrifiaduron cyfieithwyr allanol er mwyn hwyluso hyn.

6.21 Mae'n fanteisiol dod i adnabod cryfderau ac arbenigeddau gwahanol gyfieithwyr a chomisiynu gwaith yn unol â nhw. Er enghraifft, mae rhai cyfieithwyr yn arbenigo mewn cyfieithu dogfennau technegol neu gyfreithiol cymhleth ac eraill â dawn arbennig i drosi deunyddiau creadigol. Byddai'n fanteisiol felly fod gennych brosesau mewn lle er mwyn adnabod pa fath o ddogfen sydd dan sylw a pharu'r gwaith hwnnw â'r cyfieithydd mwyaf addas ar ei gyfer. Gellid ystyried defnyddio'r un cyfieithydd ar gyfer cyfres o dasgau tebyg er mwyn sicrhau cysondeb arddull ar draws y gwaith.

[7] Bydd y model hwn yn amrywio gan ddibynnu ar faint sefydliad, wrth gwrs. Mewn sefydliadau mwy efallai y byddai'r model hwn yn gweithio ar lefel adran neu gyfarwyddiaeth.


6.22 Mae'n arfer da i gynnwys cyfieithwyr yn rhan o'r gwaith o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach na thynnu ar eu harbenigedd ar ddiwedd prosiect yn unig. Mae cydweithio agosach rhwng cyfieithwyr ac arbenigwyr yn caniatáu adnabod anawsterau yn y ddwy iaith yn gynnar yn y broses. Er enghraifft, pe bai cyfieithydd yn rhan o'r trafodaethau ar ddechrau prosiect byddai modd iddo:

- adnabod geirfa neu derminoleg drafferthus y bydd gofyn iddo gynllunio ar eu cyfer
- cynghori ynghylch idiomau, cysyniadau neu sloganau na ellir eu cyfieithu neu'u trosi yn hwylus.

6.23 Os nad yw'r cyfieithwyr wedi bod yn rhan o'r gwaith o'r cychwyn cyntaf, mae'n hanfodol eich bod chi'n briffio'r cyfieithwyr yn llawn ynghylch y gwaith dan sylw gan egluro nod a chyd-destun y gwaith, y gynulleidfa darged ac unrhyw wybodaeth gefndirol ddefnyddiol. Bydd angen sicrhau bod gofynion y dasg yn gwbl eglur a dylid ceisio hefyd adnabod unrhyw dermau arbenigol neu ddieithr a allai godi yn y gwaith.

6.24 Gwnewch yn fawr o sgiliau ieithyddol eich cyfieithwyr gan sicrhau bod gennych berthynas neu gytundeb sy'n caniatáu i chi gysylltu â nhw i wirio manylion cyfieithiad neu holi mân gwestiynau ieithyddol.

Sicrhewch hefyd fod eich cyfieithwyr yn ymwybodol bod croeso iddynt gysylltu i holi cwestiynau yn ystod y broses gyfieithu – er mwyn gwirio ystyr y gwreiddiol neu ddeall rhagor am gynulleidfa neu nod dogfen. Byddai modd iddynt hefyd ddarparu cyngor am bethau sy'n amwys neu angen eu cryfhau yn y testun gwreiddiol. Yn wir, gall y broses gyfieithu wella safon y gwaith gwreiddiol gan fod y cyfieithydd yn bâr newydd o lygaid ar y gwaith.



6.25 Mae'n ddoeth sicrhau bod gennych drefniadau mewn lle sy'n caniatáu i chi wneud ceisiadau am gyfieithiadau byrion ar fyr rybudd. Bydd hefyd angen i chi ddod i drefniant â'ch cyfieithwyr ynghylch y ffordd orau i reoli amserlenni dychwelyd gwaith brys neu waith lle mae amserlenni tynn neu statudol yn pwyso. Gallwch drafod hefyd sut orau i ddefnyddio eich cyfieithwyr er mwyn cyfieithu negeseuon byr rybudd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

6.26 Mae rheoli prosiectau mwy yn her wahanol eto. Os byddwch yn cyfieithu dogfen hir neu gyfres o ddogfennau sy'n perthyn i'w gilydd mae'n bosibl y bydd gofynion yr amserlen yn golygu bod angen i fwy nag un cyfieithydd rannu'r gwaith. Mae'n bwysig eich bod chi'n trafod hyn ymlaen llaw â'r cyfieithwyr gan sicrhau bod prosesau mewn lle er mwyn gwarantu ansawdd y gwaith a chysondeb arddull a therminoleg os bydd mwy nag un cyfieithydd yn gweithio ar ddogfen.

6.27 Dylid sicrhau bod gwirio cywirdeb iaith dogfennau yn rhan annatod o bob prosiect cyfieithu. Gellid amlinellu'r glir fod hyn yn ofyniad contractiol.

# 7 Technoleg ac adnoddau eraill i hwyluso gwaith cyfieithwyr

7.1 Gall technoleg iaith gynorthwyo'r cyfieithydd drwy gyflymu a hwyluso ei waith. Gall hefyd gynorthwyo sefydliadau sy'n comisiynu gwaith cyfieithu i sicrhau ansawdd y gwaith a gomisiynir ac i sicrhau gwerth am arian.

7.2 Mae'n rhaid i gyfieithwyr dynol fod ynghlwm wrth gyfieithu dogfen; ni all peiriant gymryd lle cyfieithydd proffesiynol. Mae modd i feddalwedd gynorthwyo gwaith cyfieithwyr ond ni ddylid byth ei defnyddio yn lle cyfieithydd proffesiynol. Yn sicr ni ddylid dibynnu ar ddolenni at feddalwedd cyfieithu peirianyddol ar y we er mwyn darparu fersiwn Cymraeg o wefan na chyhoeddiadau eraill sefydliad.

7.3 Yn yr adrannau isod ceir amlinelliad o'r prif fathau o feddalwedd sydd ar gael i hwyluso'r broses gyfieithu ynghyd ag awgrymiadau ynghylch sut y gellid eu defnyddio'n ymarferol er budd cyfieithwyr a'r sefydliadau sy'n comisiynu gwaith cyfieithu fel ei gilydd.

## Meddalwedd cof cyfieithu

7.4 Mae meddalwedd cof cyfieithu yn fath o gronfa ddata sy'n cadw cofnod o gyfieithiadau blaenorol er mwyn eu defnyddio eto. Pan fydd dogfen i'w chyfieithu yn cael ei llwytho i'r feddalwedd bydd yn chwilio yn y cof am gydrannau y gellir eu defnyddio wrth gyfieithu'r darn newydd. Mae'r cydrannau hyn yn amrywio o ran maint a gallant gynnwys termau, brawddegau neu hyd yn oed baragraffau cyfan.

7.5 Gall defnyddio'r feddalwedd hon hwyluso'r broses o gyfieithu dogfen drwy:

- ddileu'r angen i gyfieithu testun a gyfieithwyd eisoes o'r newydd
- arwain at gysondeb o ran arddull a thermau
- galluogi cyfieithwyr i gyfieithu mwy o eiriau mewn llai o amser.[8]

7.6 Mantais bellach yw'r potensial sydd i gyrff rannu cofau cyfieithu â sefydliadau eraill er mwyn iddynt hwythau eu hailddefnyddio a chael budd ohonynt. Mae Llywodraeth Cymru, er enghraifft, yn rhannu cyfres o gofau cyfieithu defnyddiol drwy BydTermCymru gan gynnwys cofau deddfwriaeth a strategaethau'r Llywodraeth.

[8] Mae peth ymchwil diweddar hefyd yn awgrymu bod defnyddio meddalwedd o'r fath yn lleihau'r straen ymenyddol ar gyfieithwyr.

Mae'r canlyniadau a geir o ddefnyddio meddalwedd cof cyfieithu'n hollol ddibynnol ar safon y cyfieithiadau a lwythir iddi. Rhaid sicrhau bod y cyfieithiadau sy'n cael eu llwytho i'r feddalwedd o safon er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr hyn a gynigir gan y feddalwedd o safon. Mae'n bwysig felly bod proses o reoli ansawdd mewn lle a bod y cof cyfieithu yn cael ei olygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb y cof.




7.7 Mae'n bwysig hefyd fod y sawl sy'n gyfrifol am gomisiynu gwaith cyfieithu yn ymwybodol o risgiau'n ymwneud â diogelwch data wrth ddefnyddio meddalwedd cof cyfieithu ac yn llunio canllawiau priodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol. Dylid sicrhau, er enghraifft, bod y sefydliad dan sylw yn hapus â'r trefniadau diogelwch pe bai'r cof cyfieithu'n cael ei storio yn y cwmwl. Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r feddalwedd i gyfieithu gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif. Mae hyn yn arbennig o wir os defnyddir meddalwedd sy'n storio gwybodaeth yn y cwmwl neu os rhennir cof cyfieithu â rhwydwaith o gyfieithwyr. Gellid ystyried ychwanegu enwau pobl a manylion personol eraill at y cyfieithiad ar ddiwedd y broses er mwyn osgoi cadw cofnod ohonynt yn y cof.

7.8 Mae sawl cwmni masnachol yn darparu eu fersiynau eu hunain o'r feddalwedd hon,[9] gan gynnwys Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor sydd wedi creu CyfieithuCymru â rhyngwyneb Cymraeg.[10] Mae peth o'r cynnyrch sydd ar gael yn lled soffistigedig bellach ac yn galluogi'r defnyddiwr i:

- greu a rheoli rhestrau o dermau safonol at ddiben prosiectau penodol

[9] Nid oes rhaid i sefydliad ddefnyddio'r un math o feddalwedd cof cyfieithu â'u darparwyr allanol. Mae modd trosglwyddo ffeiliau cof cyfieithu o un system i'r llall drwy ddefnyddio fformat rhyngwladol safonol megis .tmx neu .txt.
[10] http://techiaith.bangor.ac.uk/rheolyn-a-cyfieithyn/ (Cyrchwyd 10 Awst 2018).

- cael mynediad at y cronfeydd termau personol hyn, at eiriaduron safonol neu wirwyr sillafu integredig wrth gyfieithu
- cysylltu â meddalwedd cyfieithu peirianyddol allanol
- trefnu a rheoli prosiectau cyfieithu a chaniatáu i dîm gwasgaredig o gyfieithwyr gydweithio er mwyn cyfieithu'r un ddogfen.

7.9 Wrth i sefydliad fuddsoddi mewn meddalwedd cof cyfieithu, rhaid cadw mewn cof bod angen i swyddogion technoleg gwybodaeth dderbyn hyfforddiant priodol i allu gosod y feddalwedd ar gyfrifiaduron a rhoi cymorth ag unrhyw anawsterau.

## Peidio â thalu i gyfieithu'r un testun ddwywaith

7.10 Nid oes gan bob sefydliad uned gyfieithu, a hyd yn oed os oes uned fewnol mewn lle, yn aml bydd angen troi at ddarparwyr allanol i ddiwallu gofynion cyfieithu'r sefydliad. Mewn achosion o'r fath gall meddalwedd cof cyfieithu fod yn gymorth i sicrhau nad yw sefydliad yn talu dro ar ôl tro i gyfieithu'r un testun a bod cysondeb rhwng y gwaith a gyfieithir gan ddarparwyr allanol.

7.11 Mae meddalwedd cof cyfieithu yn dadansoddi faint o gynnwys y ddogfen newydd sydd i'w chyfieithu sy'n cyfateb i gynnwys y cof cyfieithu gan greu adroddiadau y gellid eu defnyddio yn rhan o'r broses gomisiynu. Dyma enghraifft o'r math o ddadansoddi mae meddalwedd cof cyfieithu yn gallu ei wneud ar eich rhan:

| Canran y gyfatebiaeth | Nifer y geiriau | Canran y geiriau % |
|---|---|---|
| Ailadrodd o fewn y ddogfen | 277 | 6 |
| 100% (Cyfatebiaeth lawn) | 924 | 20 |
| 95%–99% | 693 | 15 |
| 85%–95% | 370 | 8 |
| 75%–84% | 462 | 10 |
| 50%–74% | 92 | 2 |
| Dim cyfatebiaeth | 1802 | 39 |
| Cyfanswm | 4620 | 100 |

7.12 Yn yr enghraifft uchod:

- Mae 6% o'r geiriau yn y ddogfen newydd yn cael eu hailadrodd o fewn y ddogfen ei hun. Efallai nad oes angen eu cyfieithu eto ond mae angen eu golygu yn sicr.

- Mae 20% o'r testun yn y ddogfen newydd yn frawddegau sydd yr union yr un fath â brawddegau a storiwyd yn y cof (cyfatebiaeth lawn). Efallai nad oes angen eu cyfieithu eto ond mae angen eu golygu yn sicr. Dylid cofio, er enghraifft, nad yw cof cyfieithu yn gallu adnabod cyd-destun brawddegau fel cyfieithydd dynol, er mae rhai o'r rhaglenni diweddaraf yn gallu adnabod a yw'r cydrannau sy'n ymddangos o boptu'r gydran dan sylw yn cyfateb hefyd.
- Mae 35% o'r geiriau yn y ddogfen newydd mewn brawddegau lle mae cyfatebiaeth rannol rhwng yr hyn sydd yn y cof a'r hyn sydd yn y ddogfen newydd. Mae angen gwirio, golygu a mireinio'r cyfieithiadau hyn yn ofalus.
- Mae 39% o'r geiriau yn y ddogfen newydd mewn brawddegau nad ydynt yn debyg o gwbl i'r hyn sydd yn y cof. Mae angen cyfieithu'r brawddegau hyn i gyd o'r newydd.

7.13 Gellid defnyddio'r canlyniadau uchod er mwyn pennu pris ar gyfer darn o waith cyfieithu. Wrth gomisiynu gwaith cyfieithu gellid talu cyfraddau gwahanol gan ddibynnu ar ganran y gyfatebiaeth rhwng y ddogfen a chynnwys y cof. Yn wir, mae systemau prisio tair haen[11] yn dod yn fwyfwy cyffredin yn y diwydiant cyfieithu, er enghraifft:

1. Gellid trefnu eich bod yn talu cyfran yn unig o'r gost arferol y fil o eiriau i gyfieithu neu i wirio'r rhannau o'r ddogfen sy'n cyfateb yn llawn (100%) â chynnwys y cof neu sy'n cael eu hailadrodd o fewn y ddogfen. Y disgwyl yw na fydd angen newid y cydrannau hynny ond mae'n bwysig bod y cydrannau hyn yn cael eu gwirio ac mae'n briodol talu ffi golygu i'r cyfieithydd am wirio eu cywirdeb a'u priodoldeb.

2. Gellid talu cyfran fwy o gost arferol y fil o eiriau ar gyfer y cydrannau sy'n cyfateb yn rhannol 50–99%. Rhagwelir y bydd angen addasu'r cydrannau hyn ychydig gan nad ydynt yn cyfateb yn union ond ni fydd angen cyfieithu popeth o'r newydd.

3. Bydd angen talu'r gost arferol ar gyfer y cydrannau hynny y mae angen eu cyfieithu i gyd o'r newydd.

7.14 Nid yw'n briodol defnyddio cof cyfieithu ar gyfer pob darn o waith, fodd bynnag, a gall fod yn fanteisiol weithiau i beidio â chyfyngu ar allu creadigol cyfieithwyr os yw'r testun yn gofyn am beth creadigrwydd neu os oes angen i'r cywair fod ychydig yn wahanol i'r hyn a fyddai'n cael ei gynnig gan y feddalwedd.

[11] Dylid pwysleisio mai enghraifft yn unig yw hon a bod systemau prisio â mwy neu lai o haenau'n bosibl. Mater i'r sefydliad yw penderfynu a thrafod y dull mwyaf priodol o bennu system brisio â'i ddarparwyr.

7.15 Os bydd sefydliad yn dewis gosod contract allanol drwy broses caffael gellid gwneud y canlynol:

- Ei gwneud yn ofynnol yn y contract i ddarparwyr ddefnyddio meddalwedd cof cyfieithu.
- Gofyn i'r darparwr greu cof cyfieithu arbennig ar gyfer gwneud gwaith cyfieithu ar ran y sefydliad gan sicrhau bod y cof hwn yn cael ei gadw'n gyfrinachol.
- Gofyn hefyd i'r darparwr gadw rhestr o derminoleg penodol i waith y sefydliad gan ychwanegu ati'n gyson. Mae modd i gyfieithwyr hefyd lunio rhestrau o dermau o fewn meddalwedd cof cyfieithu. Gellir gofyn iddynt lwytho'r rhestr o dermau i mewn i'w meddalwedd cof cyfieithu hefyd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ei defnyddio wrth gyfieithu gwaith ar ran y sefydliad.
- Ei gwneud yn ofyniad contractiol mai'r sefydliad sy'n comisiynu sy'n berchen ar y cof cyfieithu. Mae'n bwysig sicrhau bod y cyfieithwyr yn deall ac yn cydsynio y rhennir eu gwaith cyfieithu â darparwyr eraill drwy'r cof. Gellir defnyddio'r cof hwn os bydd y sefydliad yn caffael gwaith cyfieithu yn y dyfodol.
- Pe bai'r sefydliad ei hun yn defnyddio meddalwedd cof cyfieithu ac yn cadw copi canolog o'r cof cyfieithu sefydliadol, gellid ei gwneud yn ofyniad y telir am gyfieithiad newydd yn ôl cyfradd y gyfatebiaeth rhwng cynnwys y ddogfen newydd a chynnwys y cof hwnnw. Bydd y sefydliad wedyn yn rhannu cydrannau perthnasol o'r cof hwnnw â'r darparwyr allanol er mwyn iddynt ddefnyddio'r cydrannau hynny wrth gyfieithu. Ar ôl gorffen cyfieithu gall y sefydliad ofyn am gopi o'r cof, yn ogystal â'r cyfieithiad yn ôl er mwyn diweddaru cof cyfieithu'r sefydliad.

7.16 Wrth ystyried comisiynu gwaith yn y modd hwn mae'n bwysig cofio y bydd rhai mathau o ddogfennau yn rhoi canlyniadau gwell na'i gilydd o ddefnyddio cof cyfieithu:


- Yn amlwg ceir cyfatebiaeth uwch rhwng adroddiadau sy'n dilyn strwythur neu dempled tebyg i'w gilydd.
- Mae'r feddalwedd yn benthyg ei hun yn dda i destunau ffeithiol lle ceir rhywfaint o ailadrodd neu ddilyn fformiwla benodol, er enghraifft agendâu a chofnodion cyfarfod, neu dystysgrifau a thrwyddedau.
- Gall hefyd fod yn arf ddefnyddiol wrth gyfieithu polisïau neu strategaethau, yn enwedig os byddant yn cael eu diwygio dros amser: O ddefnyddio meddalwedd cof cyfieithu gellid sicrhau mai dim ond y cymalau newydd neu ddiwygiedig a gyfieithir o'r newydd gan arbed cost cyfieithu'r ddogfen i gyd o'r newydd.
- Gall arbedion ariannol ddod yn amlycach dros amser hefyd, er enghraifft yng nghyd-destun adroddiadau chwarterol neu flynyddol.

7.17 Mae rhai mathau o feddalwedd cof cyfieithu hefyd yn caniatáu i chi gloi cydrannau na ddylid eu golygu ymhellach. Fodd bynnag, dylid cofio y bydd y sefydliad yn talu ffi 'golygu' bob tro y bydd gofyn i'r cyfieithydd wirio segment. Felly os yw sefydliad yn ymwybodol bod rhannau o ddogfen (e.e. paragraffau rhagarweiniol templed llythyr) eisoes wedi eu cyfieithu mae'n synhwyrol i beidio anfon yr adrannau hynny at y cyfieithwyr o gwbl mewn gwirionedd. Bydd hyn yn golygu bod y sefydliad yn osgoi talu ffi 'golygu' ar gyfer y segmentau hyn ac yn lleihau'r risg hefyd bod cyfieithwyr yn addasu testunau y mae'r sefydliad eisoes wedi pennu eu geiriad safonol.

## Meddalwedd cyfieithu peirianyddol

7.18 Math arall o feddalwedd sy'n gallu cynorthwyo gwaith cyfieithwyr yw meddalwedd cyfieithu peirianyddol neu gyfieithu awtomatig. Bydd meddalwedd cyfieithu peirianyddol yn cynnig cyfieithiadau i'r cyfieithydd sydd wedi'u seilio ar ddadansoddiad o gorpws o iaith a/neu ar sail ei rheolau gramadegol. Mae camau breision wedi eu cymryd yn y maes hwn dros y blynyddoedd diwethaf ac mae sawl cwmni bellach yn darparu cyfieithu peirianyddol o'r Saesneg i'r Gymraeg ac fel arall ac mae safon yr allbwn yn gwella o hyd wrth i'r dechnoleg ddatblygu. Gobeithir gweld datblygiadau arwyddocaol pellach yn y maes hwn dros y blynyddoedd nesaf wrth i rai o'r technolegau chwyldroadol diweddaraf gael eu cymhwyso i'r Gymraeg.[12]

Fodd bynnag mae safon a chywirdeb ffeithiol y cyfieithiad a ddarperir gan feddalwedd cyfieithu peirianyddol yn amrywio, ac ni ddylid ystyried cyfieithiad peiriant cyfieithu yn gyfieithiad safonol a chywir. Ni all peiriant ddeall cyd-destun na gwybodaeth gefndirol fel cyfieithydd dynol. Rhaid golygu cyfieithiadau a wneir gan beiriannau cyn y gellir eu cyhoeddi er mwyn osgoi risg i enw da sefydliad a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.




[12] Gweler, er enghraifft: https://www.microsoft.com/en-us/research/project/neural-machine-translation/ (gwefan Saesneg yn unig) (Cyrchwyd 12 Chwefror 2019).

7.19 Mae safon bresennol y cyfieithu peirianyddol o'r Saesneg i'r Gymraeg yn wannach ar y cyfan na safon y cyfieithu peirianyddol o'r Gymraeg i'r Saesneg o ganlyniad i gyfoeth a chymhlethdod patrymau'r Gymraeg. Ond yn gyffredinol mae cynnyrch peiriannau cyfieithu peirianyddol wedi gwella i'r fath raddau nes ei fod yn *ddefnyddiol* i gyfieithwyr dynol:

- Gall cyfieithu peirianyddol fod o gymorth i gyfieithwyr drwy ddarparu bras gyfieithiadau i'w golygu ymhellach. Fe'i defnyddir i'r perwyl hwn gan wasanaeth cyfieithu'r Comisiwn Ewropeaidd a Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er enghraifft.[13]
- Gall gynorthwyo'r cyfieithydd yn yr un modd â meddalwedd cof cyfieithu felly, gan ei fod yn darparu ffynhonnell o destun parod y byddai angen i'r cyfieithydd ei olygu.
- Mae modd defnyddio rhai mathau o gyfieithu peirianyddol o fewn meddalwedd cof cyfieithu er mwyn manteisio ar gynnwys y cof cyfieithu a chanlyniadau'r cyfieithu peirianyddol ar yr un pryd.

7.20 Mae defnyddio cyfuniad o feddalwedd cof cyfieithu a meddalwedd cyfieithu peirianyddol fel hyn yn golygu mai prin y bydd y cyfieithydd yn gorfod llunio cyfieithiad yn gyfan gwbl o'r newydd. Canlyniad symud i'r dull hwn o weithio yw bod rôl y cyfieithydd yn newid i fod yn debycach i rôl golygydd.

7.21 Wrth ddefnyddio cyfuniad o feddalwedd cof cyfieithu a meddalwedd cyfieithu peirianyddol, gall fod yn ddefnyddiol llwytho unrhyw dermau neu enwau sy'n debygol o godi'n aml i'r cof cyfieithu er mwyn arbed y feddalwedd cyfieithu peirianyddol rhag cyfieithu'r elfennau hynny'n anghywir. Gall meddalwedd cyfieithu peirianyddol geisio cyfieithu enwau personol, gall gyfieithu idiomau'n llythrennol neu gyfieithu geiriau sydd â mwy nag un ystyr yn anghywir (e.e. gall *chair* olygu 'cadair' neu 'gadeirydd').

7.22 Mae'r math o olygu y bydd gofyn i'r cyfieithydd ei wneud – ôl-olygu (*post editing*) yw'r term a ddefnyddir yn y diwydiant cyfieithu – yn wahanol i waith golygu cyffredinol a bydd angen sicrhau bod y cyfieithwyr yn derbyn hyfforddiant priodol er mwyn datblygu'r sgìl hwn ymhellach. Gall gynnwys:

- tacluso neu ad-drefnu cystrawen
- cywiro mân wallau
- cywiro gwallau mwy arwyddocaol
- anwybyddu'r cynnig ac ail-ysgrifennu cydrannau cyfan.

[13] Mae'n ddiddorol nodi bod y sefydliadau hyn wedi datblygu systemau cyfieithu peirianyddol penodol er mwyn gwasanaethu eu hanghenion eu hunain, h.y. systemau sydd wedi eu hyfforddi â deunyddiau corpws perthnasol i'w meysydd gwaith a'r math o gyweiriau neu arddulliau ysgrifennu a ddefnyddir ganddynt amlaf. Mae hyn yn duedd gyffredinol ymhlith sefydliadau sy'n cynhyrchu llawer o ddeunyddiau wedi'u cyfieithu ac mae meddalwedd megis Microsoft Translator Hub yn caniatáu i sefydliadau adeiladu systemau cyfieithu peirianyddol at eu dibenion nhw eu hunain: https://hub.microsofttranslator.com (gwefan Saesneg yn unig) (Cyrchwyd 12 Chwefror 2019).

7.23 Bydd lefel y newidiadau a wneir i ddogfen hefyd yn dibynnu ar fwriad a chynulleidfa'r ddogfen. Er enghraifft efallai mai dim ond twtio a sicrhau cywirdeb cyfieithiadau a wneir â dogfennau na fydd y sefydliad yn eu cyhoeddi, yn hytrach na cheisio creu'r cyfieithiad perffaith.

7.24 Fel unrhyw sgìl newydd mae hwn yn un y bydd angen ei feithrin a chydag amser disgwylir y bydd cyfieithwyr yn dod yn fwy hyderus wrth ôl-olygu ac yn dod i ddeall y math o broblemau sy'n codi'n gyffredin wrth ddefnyddio'r feddalwedd gan gyflymu'r broses ymhellach.

7.25 Fel yn achos meddalwedd cof cyfieithu mae'n bwysig bod y sawl sy'n gyfrifol am ddefnyddio meddalwedd cyfieithu peirianyddol neu gomisiynu gwaith cyfieithu yn ymwybodol o delerau ac amodau a risgiau diogelwch defnyddio'r feddalwedd. Mae'n ddoeth felly llunio canllawiau priodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol. Ni ddylid defnyddio'r feddalwedd hon i gyfieithu gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif gan fod y cynnyrch yn gallu cael ei storio ar weinyddion y tu hwnt i reolaeth y defnyddiwr.

## Meddalwedd rheoli prosiectau cyfieithu

7.26 Mae meddalwedd rheoli prosiectau cyfieithu ar gael hefyd. Yn ddibynnol ar y feddalwedd gellir:

- gwneud cais am gyfieithiad
- rhannu'r gwaith rhwng cyfieithwyr
- pennu amserlenni
- rheoli llif y gwaith cyfieithu o un lleoliad canolog
- ymdrin â materion bilio.

7.27 Efallai y byddai'n fuddiol buddsoddi yn y math yma o feddalwedd os yw sefydliad yn gwneud a/neu'n comisiynu llawer o waith cyfieithu. Mae sawl darparwr meddalwedd cof cyfieithu yn cynnwys y nodweddion hyn yn rhan o'u pecynnau meddalwedd bellach felly mae'n bosibl na fyddai gofyn i'ch sefydliad fuddsoddi mewn system ar wahân.

# 8 Llif gwaith cyfieithu testun: cyngor ymarferol

8.1 Mae'r adran hon yn cynnig arweiniad ymarferol am faterion y byddai'n fanteisiol eu hystyried ym mhob cam o'r broses o drefnu cyfieithiad.



## Cynllunio ac amserlennu

8.2 Pob swyddog yn y sefydliad yn ymwybodol o ba ddogfennau sydd i fod yn ddwyieithog (gan gynnwys deunyddiau y mae'n rhaid eu llunio yn Gymraeg yn unol â safonau'r Gymraeg neu gynllun iaith Gymraeg) ac o'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i alluogi hynny.

8.3 Adnabod natur y ddogfen cyn dechrau ar y broses ddrafftio ac ystyried a oes yna dempledi safonol y gellid eu dilyn er mwyn osgoi dyblygu gwaith.

8.4 Sicrhau bod templedi dwyieithog safonol y sefydliad ar gael yn hwylus i swyddogion o fan canolog, megis y fewnrwyd. Gellid ystyried rhannu'r rhain â chyfieithwyr allanol hefyd er mwyn sicrhau bod y cyfieithwyr yn glynu atynt ac na chyfieithir y rhain o'r newydd bob tro.

8.5 Byddai'n fuddiol hefyd i lunio rhestr o dermau y bydd sefydliad yn eu defnyddio neu ofyn i ddarparwr cyfieithu eu cywain ar ran y sefydliad. Gellid rhannu'r termau wedyn â darparwyr cyfieithu a gofyn iddynt eu defnyddio wrth eu gwaith.

8.6 Cynllunio gwaith cyfieithu'n ofalus gan sicrhau bod digon o amser yn rhan o amserlen cyhoeddi dogfen ar gyfer gwaith cyfieithu a phrawfddarllen y ddogfen yn y ddwy iaith – yn enwedig os bydd angen dylunio dogfen. Mae'n bwysig sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o faint o amser y mae angen ei ganiatáu i gyfieithu dogfen.



## Paratoi testun fydd yn cael ei gyfieithu

8.7 Sicrhau bod cyfarwyddiadau clir ar gael i'r sawl sy'n drafftio dogfennau fydd yn cael eu cyfieithu gan ddarparu arweiniad cadarn am faterion megis:

- arddull tŷ
- cywair a chynulleidfa
- terminoleg
- llunio testunau clir, pwrpasol a chryno.

Gellid rhannu'r cyfarwyddiadau hyn â'r cyfieithwyr hefyd.

8.8 Sicrhau bod swyddogion – yn enwedig swyddogion newydd – yn cael eu hyfforddi'n ffurfiol i ddrafftio dogfennau sy'n cyd-fynd â'r canllawiau uchod er mwyn gwella ansawdd y dogfennau gwreiddiol.

8.9 Adolygu'r testun yn drwyadl gan ystyried bob amser a fyddai modd cyfleu'r un neges mewn dull mwy cryno neu a fyddai modd cyfleu'r un negeseuon yn fwy effeithiol gan ddefnyddio lluniau neu graffeg. Gall defnyddio brawddegau byrion ac arddull uniongyrchol wneud y testun yn haws ei gyfieithu a gwella'r canlyniadau a geir o ddefnyddio meddalwedd cyfieithu.

8.10 Prawfddarllen y testun gwreiddiol yn fanwl gan wirio sillafu a gramadeg y dogfennau hynny. Mae'n bwysig sicrhau nad oes camgymeriadau yn y gwreiddiol ac na fydd angen ei ddiwygio ymhellach yn dilyn derbyn y cyfieithiad yn ôl. Bydd hyn yn gymorth i beidio â llygru'r cof cyfieithu â thestunau gwallus.




### Anfon testun at gyfieithydd i'w gyfieithu

**8.11** Darparu fersiwn terfynol dogfen i gyfieithydd yn hytrach na chyfres o ddrafftiau a allai gymhlethu'r broses gyfieithu a chynyddu costau. Efallai y byddwch yn dymuno amgryptio'r dogfennau a'r cofau cyfieithu a anfonir at y cyfieithwyr os bydd cynnwys y gwaith yn gyfrinachol neu'n sensitif.

**8.12** Darparu cyfarwyddiadau clir i'r cyfieithydd gan gynnwys manylion ynghylch:

- nod a chynulleidfa darged y ddogfen
- dolenni at ddogfennau y dyfynnir ohonynt
- termau penodol y dylid glynu atynt.




### Derbyn gwaith yn ôl gan gyfieithydd

**8.13** Gwirio'r cyfieithiad yn ofalus gan geisio sicrhau:

- nad yw'n cynnwys gwallau sillafu a gramadeg
- bod y cyfieithydd wedi deall nod ac ystyr y testun gwreiddiol
- bod y testunau'n cyfateb i'w gilydd yn y ddwy iaith ac nad oes yna destun ar goll.

**8.14** Holi'r cyfieithydd os ydych chi'n ansicr ynghylch un o'r elfennau uchod a gofyn i'r cyfieithydd edrych eto ar un neu ragor o'r elfennau hyn er mwyn sicrhau eich bod chi'n fodlon â'r cyfieithiad terfynol.

**8.15** Os nad ydych chi'n fodlon â safon cyfieithiad dylech drafod hynny'n syth â'r cyfieithydd gan dynnu sylw penodol at wallau yn y testun neu ddarparu enghreifftiau penodol o nodweddion arddull rydych chi'n anfodlon â nhw. Cofiwch, fodd bynnag, fod gan bawb arddull ysgrifennu gwahanol i'w gilydd a bod sawl ffordd gywir a derbyniol o fynegi'r un peth. Darperwch adborth adeiladol er mwyn i'r cyfieithydd ddeall eich anghenion yn llawn a cheisio sicrhau eich bod chi'n fodlon â'r cyfieithiad y tro nesaf.



| | Paratoi testun i'w gyhoeddi |
|---|---|
| 8.16 | Prawfddarllen y testun wedi'i gyfieithu ynghyd â'r testun gwreiddiol yn fanwl gan gymharu'r fersiynau â'i gilydd. Dylid sicrhau eich bod yn gwbl fodlon â'r testun yn y ddwy iaith cyn bwrw ymlaen i ddylunio'r ddogfen – mae newid testun sydd wedi'i ddylunio'n gallu bod yn ddrud ac yn drafferthus. |
| 8.17 | Mater i'r sefydliad yw penderfynu pwy fydd yn gyfrifol am y gwaith prawfddarllen:<br>○ Bydd rhai cyfieithwyr yn cynnig gwasanaeth prawfddarllen dogfennau ac yn dwyn cyfrifoldeb am gywirdeb y gwaith terfynol yn y fformat terfynol.<br>○ Gall fod yn fanteisiol, fodd bynnag, i ddefnyddio rhywun ar wahân i'r cyfieithydd gwreiddiol – prawfddarllenydd neu gyfieithydd gwahanol – er mwyn cael barn annibynnol a phâr newydd o lygaid ar y gwaith. |
| 8.18 | Mae'n syniad da i argraffu'r testun terfynol yn y ddwy iaith gan ei bod hi'n hawdd i'r llygaid beidio â sylwi ar gamgymeriadau wrth ddarllen ar y sgrin. |
| 8.19 | Sicrhau bod diwyg a fformat y ddwy iaith yn gyson ac o'r un ansawdd. Ceir rhagor o arweiniad am arferion gorau dylunio dwyieithog yn Canllawiau dylunio dwyieithog y Comisiynydd. |
| 8.20 | Mae cywiro proflenni yn rhan hollbwysig o'r broses gyfieithu ac mae'n arfer da sicrhau digon o amser ar gyfer gwneud hynny yn drylwyr. Gall mân gamgymeriadau yn aml fod yn gostus, yn enwedig ar arwyddion. |
| 8.21 | Talu sylw arbennig i sicrhau bod marciau diacritig (acenion) y Gymraeg yn cael eu trosglwyddo'n gywir wrth ddylunio dogfennau, posteri, arwyddion ayb. |
| 8.22 | Sicrhau bod gweithdrefnau clir mewn lle er mwyn awdurdodi cynhyrchu fersiwn terfynol arwydd neu argraffu dogfen. Mae'n hanfodol bod swyddogion yn ymwybodol pwy sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros gywirdeb proflenni a chynlluniau ar gyfer arwyddion. |

# Rhan 3:
# Defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb



## 9 Trefnu a chynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau dwyieithog

9.1 Mae cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog er mwyn parchu dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth neu gwsmeriaid yn ffordd amlwg o gynnig gwasanaeth cwsmer o'r radd flaenaf. Ond gall fod yn llawer mwy na hyn hefyd. Mewn rhai cyd-destunau gall cynnal cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog fod yn gwbl hanfodol i sicrhau lles unigolyn. Bydd gofyniad statudol ar rai sefydliadau mewn perthynas â sefyllfaoedd o'r fath a dyletswydd arnynt i gydymffurfio a safonau perthnasol. Bydd sefydliadau eraill yn dymuno cynnig gwasanaeth Cymraeg yn y cyd-destunau sensitif hyn yn arwydd o barch at yr unigolion dan sylw.

9.2 Nod y rhan hon o'r ddogfen gyngor yw cynnig arweiniad ynghylch sut y mae defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd o bob math er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bawb sy'n cymryd rhan. Ceir trafodaeth yn adran 10 am sefyllfaoedd cyfarwydd i ni yn y Gymru ddwyieithog sydd ohoni, megis cynhadledd neu bwyllgor. Mae adran 11, fodd bynnag, yn mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle mae hawliau cymharol newydd gan siaradwyr y Gymraeg o ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

9.3 Mae'r rhan hon o'r ddogfen hefyd wedi'i llunio â'r rhagdybiaeth mai'r ffordd fwyaf hwylus a chost effeithiol o gynnal cyfarfodydd Cymraeg neu ddwyieithog yw defnyddio sgiliau ieithyddol swyddogion. Mae manteision amlwg i hyn o safbwynt:

- sicrhau arbedion ariannol
- bod â gwell rheolaeth dros amserlen cynnal cyfarfodydd
- sicrhau bod y neges a'r mynegiant cywir yn cael eu trosglwyddo
- galluogi swyddogion i gynnal a datblygu eu sgiliau llafar yn y ddwy iaith.

9.4 Dylid cynllunio cyfarfodydd neu ddigwyddiadau'n bwrpasol gan ddefnyddio swyddogion fyddai'n gallu cynnal cyfarfodydd Cymraeg neu ddwyieithog lle bo modd. Dylid adnabod swyddogion sydd â'r sgiliau angenrheidiol a chyfathrebu'n glir wrthynt eich bod yn awyddus iddynt ddatblygu arbenigedd penodol mewn cynnal cyfarfodydd Cymraeg neu ddwyieithog.

9.5 Dylid hefyd adnabod swyddogion eraill y gellid datblygu eu sgiliau llafar er mwyn eu galluogi i gynnal cyfarfodydd – neu rannau o gyfarfodydd – drwy gyfrwng y Gymraeg a chynllunio hyfforddiant a chefnogaeth briodol iddynt. Mae'n bosibl y byddai gan rai siaradwyr sgiliau Cymraeg cryfach ar lafar nac yn ysgrifenedig ac y byddent yn fwy hyderus i roi cynnig ar siarad Cymraeg mewn cyfarfod na llunio dogfen.


## 10 Defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i gynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau dwyieithog

10.1 Mae defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn anorfod mewn rhai cyd-destunau fodd bynnag. Pan fo hynny'n wir mae defnyddio cyfieithydd ar y pryd proffesiynol yn fodd o sicrhau delwedd broffesiynol i'ch gwaith a sicrhau bod y gwasanaeth o ansawdd. Mae defnyddio cyfieithydd ar y pryd sy'n aelod o gorff proffesiynol – ac felly wedi ymrwymo at god ymddygiad proffesiynol – hefyd yn gam hanfodol tuag at warchod buddiannau'r sawl sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod.[14] Gall ystyriaethau ynghylch moeseg a chyfrinachedd yr ymdrinnir â hwy mewn cod ymddygiad o'r fath fod yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun cyfarfodydd.

10.2 Ceir rhagor o wybodaeth gyffredinol am gomisiynu cyfieithydd proffesiynol yn adran chwech uchod ond dyma ambell ystyriaeth benodol i'r maes hwn:

- Mae'r math hwn o gyfieithu yn waith trwm ac os rhagwelir y bydd angen i gyfieithydd fod wrthi'n cyfieithu am fwy na hanner awr yn ddi-dor, mae'n bwysig trafod hyn â'r cyfieithydd ac ystyried cyflogi ail gyfieithydd er mwyn sicrhau eu bod yn cael seibiant priodol.
- Pan fydd angen defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn un cyfarfod argymhellir defnyddio gwasanaeth dau gyfieithydd ar y pryd, yn enwedig pan fydd y cyfarfod yn para mwy na hanner awr, gan y byddai trosi yn ôl ac ymlaen rhwng yr ieithoedd yn peri cryn staen ymenyddol. Bydd hefyd angen cynllunio defnydd priodol o offer ar gyfer cyfarfodydd o'r fath gan ystyried defnyddio sianelau neu offer ar wahân ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg.
- Fel rheol bydd cyfieithwyr yn codi fesul awr am y gwasanaeth, ac am yr amser y byddant yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r cyfarfod ac yn gosod yr offer. Gellid holi a yw'r cyfieithydd yn codi cyfradd wahanol ar gyfer amser teithio a gosod ac a fydd costau teithio eraill yn y dyfynbris. Dylid holi ymlaen llaw hefyd a yw'r cyfieithydd yn codi TAW er eglurdeb. Noder, fodd bynnag, fod Cytundeb fframwaith cyfieithu a chyfieithu ar y pryd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn gofyn i gyfieithwyr ar y pryd nodi un pris ar gyfer y gwasanaeth cyfan.
- Fel arfer bydd gan y cyfieithydd ei offer ei hun neu bydd yn gallu trefnu llogi set ar eich rhan a dylid cytuno ar delerau llogi ymlaen llaw gan gynnwys amodau digolledu os bydd clustffonau'n mynd ar goll neu'n cael eu difrodi. Pe baech yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn rheolaidd gallai fod yn fanteisiol ichi ystyried prynu eich offer eich hun, gan gofio bod costau ynghlwm wrth gynnal a chadw'r offer hwnnw dros amser wrth gwrs.

[14] Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r unig gorff proffesiynol sy'n cynnig aelodaeth fel cyfieithydd ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar hyn o bryd.



- Mae Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd wedi ei ddatblygu gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Maent hefyd yn y broses o ddatblygu llwyfan hyfforddi digidol ar gyfer y proffesiwn â chymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Bydd y llwyfan hwn yn cynnwys cyfres o fideos er mwyn caniatáu i bobl ymarfer y grefft o gyfieithu ar y pryd a chyfieithu olynol mewn gwahanol gyd-destunau.[15]

**Y ddau ddull: cyfieithu ar y pryd a chyfieithu olynol**

10.3 Mae dau brif ddull o gyflwyno gwasanaethau cyfieithu ar lafar, sef cyfieithu ar y pryd *(simultaneous interpretation)* a chyfieithu olynol *(consecutive interpretation)*.

10.4 Cyfieithu ar y pryd yw'r dull cyfarwydd o ddarparu gwasanaethau cyfieithu yma yng Nghymru. Dyma'r cyfieithu sy'n digwydd bron yn union yr un pryd â'r siarad gwreiddiol – un ai drwy sibrwd neu drwy ddefnyddio offer arbennig – a dyma'r dull a ddefnyddir amlaf mewn cynhadledd neu gyfarfod pwyllgor. Bydd y cyfieithydd ar y pryd yn darparu cyfieithiad gair am air gan ddynwared goslef, pwyslais ac emosiwn y siaradwr gwreiddiol. Mae'r dull hwn o gyfieithu wedi hen ymsefydlu yng Nghymru ac mae gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ddau gategori o aelodaeth cyfieithu ar y pryd, sef cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg a chyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg.

10.5 Prin iawn ar y llaw arall yw'r enghreifftiau o gyfieithu olynol ffurfiol yng nghyd-destun y Gymraeg hyd yma.[16] Nid oes categori aelodaeth cyfieithu olynol gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac nid yw cyfieithwyr ar y pryd wedi eu hyfforddi i weithio yn y dull hwn.[17] Defnyddir technegau tebyg i gyfieithu olynol mewn cyfarfodydd mewnol neu gyd-destunau anffurfiol weithiau lle nad oes offer priodol neu gyfieithydd proffesiynol ar gael, h.y. bydd swyddog neu gydweithiwr yn crynhoi neu'n egluro trafodaeth er budd y sawl nad yw'n deall y Gymraeg fel arfer. Ond mae dyfodiad safonau'r Gymraeg wedi codi ymwybyddiaeth newydd am y dull amgen hwn o gyfieithu[18] lle bydd y cyfieithydd yn darparu cyfieithiad wedi i'r siaradwr orffen, yn aml â chymorth nodiadau.

[15] https://www.uwtsd.ac.uk/cy/cyfieithu-ar-y-pryd/ (Cyrchwyd 12 Chwefror 2019).
[16] Mae hon yn duedd gyffredinol yn rhyngwladol ac mae cyfieithu olynol wedi dod yn llai cyffredin gyda dyfodiad y dechnoleg sy'n caniatáu cyfieithu ar y pryd ag offer.
[17] Er hynny, mae gan y Gymraeg statws led swyddogol o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Er mwyn galluogi hynny rhoddwyd y cyfle i gyfieithwyr ar y pryd o Gymru sefyll arholiadau Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Dehongli (DG Interpreting) y Comisiwn Ewropeaidd. Roedd yn rhaid i'r cyfieithwyr hynny lwyddo mewn prawf cyfieithu olynol yn ogystal â phrawf cyfieithu ar y pryd. Llwyddodd 15 unigolyn o Gymru yn y prawf hwnnw.
[18] Gweler safon 22A Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 er enghraifft: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/pdfs/wsi_20180441_mi.pdf (Cyrchwyd 11 Gorffennaf 2018).

10.6 Mae'n sgìl gwahanol iawn i gyfieithu ar y pryd gan fod gofyn i'r cyfieithydd ddibynnu ar ei gof. Gall cyfieithwyr olynol profiadol sydd â sgiliau cymryd nodiadau datblygedig ddehongli areithiau o hyd at 10 munud neu ragor yn gywir dros ben ond yn amlwg nid ydynt yn ailadrodd popeth yn union fel y dywedwyd ef.

10.7 Mae'n bwysig nodi hefyd bod angen i siaradwyr sy'n defnyddio gwasanaeth cyfieithu olynol feithrin sgiliau a phrofiad penodol wrth ddefnyddio'r dull hwn. Rhaid i'r siaradwr addasu ei ddull o siarad gan sicrhau ei fod yn oedi mewn mannau priodol a rhesymol i'r cyfieithydd grynhoi a gall hyn effeithio'n andwyol ar lif cyfarfod a thorri trafodaeth yn ei blas.

10.8 Defnyddir cyfieithu olynol gan amlaf er mwyn galluogi pobl nad ydynt yn siarad yr iaith y darperir gwasanaethau trwy ei chyfrwng i dderbyn gwasanaeth yn yr iaith honno. Er enghraifft, fe'i defnyddir yng Nghymru, a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, er mwyn caniatáu i bobl nad ydynt yn medru'r Saesneg i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Mae'n fodel a ddefnyddir amlaf pan nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn deall yr iaith y cynigir y gwasanaeth drwyddi a phan nad yw'r sawl sy'n cynnig y gwasanaeth yn deall iaith y defnyddiwr. Nid dyma sefyllfa'r mwyafrif helaeth o siaradwyr Cymraeg sy'n dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg.

10.9 Gellid dadlau bod darparu gwasanaeth cyfieithu drwy gyfieithu'n olynol yn anfanteisiol i'r defnyddiwr dwyieithog gan y bydd yn rhaid iddynt wrando ar bopeth ddwywaith. Ceir temtasiwn amlwg hefyd i'r rheini sy'n gwbl rugl yn y ddwy iaith i ymateb yn syth heb aros am y cyfieithiad olynol neu i gywiro neu gynnig sylwadau am ddehongliad y cyfieithydd o'i eiriau ei hun. Gall hyn darfu ar lif ac effeithlonrwydd cyfarfod.

10.10 Mae'n anorfod hefyd fod yna elfen o grynhoi a dehongli wrth gyfieithu'n olynol yn hytrach na chyfieithu popeth gair am air. Mae risg y gellid colli manylion allweddol neu bwyslais arwyddocaol yn y broses.

10.11 Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn felly mai cyfieithu ar y pryd yw'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf a sicrhau bod hawliau siaradwyr Cymraeg yn cael eu parchu yn y mwyafrif helaeth o gyd-destunau. Cyfieithu ar y pryd, felly, fydd ffocws gweddill y nodyn hwn ond bydd modd cymhwyso llawer o egwyddorion y ddogfen gyngor hon at ba bynnag ddull a ddefnyddir.

10.12 Mae'r Comisiynydd yn cydnabod, fodd bynnag, y gall fod cyd-destunau prin lle byddai darparu cyfieithu olynol yn fwy ymarferol neu briodol i'r defnyddiwr, er enghraifft achosion lle na fyddai'n bosibl cludo neu wisgo offer am resymau ymarferol neu ystyriaethau iechyd a diogelwch. Mae'n bosibl hefyd na fyddai pob unigolyn yn gallu gwisgo offer o ganlyniad i gyflwr corfforol neu feddyliol neu y gallai offer beri dryswch neu brofi'n rhwystr ychwanegol i berson ifanc neu fregus.

10.13 Ychydig, os o gwbl, yw profiad na hyfforddiant cyfieithwyr proffesiynol yn y maes hwn, fodd bynnag, a dymuna'r Comisiynydd weld y proffesiwn cyfieithu yng Nghymru yn mynd i'r afael â'r dull amgen hwn o ddarparu gwasanaethau Cymraeg gan ddatblygu hyfforddiant, cymwysterau, canllawiau ac ymchwil priodol yn ei gylch.

Nid yw'r Comisiynydd o'r farn bod cost llogi offer cyfieithu ar y pryd yn gyfiawnhad digonol dros ffafrio darparu cyfieithu olynol.



**Cyfieithu o'r Gymraeg ac i'r Gymraeg**

10.14 Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fu'r norm yng Nghymru ar y cyfan gan fod pobl yn gweithredu o dan y dybiaeth gyffredinol mai gwasanaeth er budd pobl nad ydynt yn deall y Gymraeg yw cyfieithu ar y pryd.

10.15 Ychydig iawn o alw sydd wedi bod am gyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg tan yn ddiweddar ond mae'r sefyllfa honno wedi newid yn sylfaenol o ganlyniad i ofynion safonau'r Gymraeg. Mae safon 26 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn nodi, er enghraifft:

> Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.[19]

10.16 Yn ogystal â'r safonau penodol hyn sy'n manylu ar y gofyniad i ddarparu gwasanaeth ar y pryd i'r Gymraeg mewn cyd-destunau'n ymwneud â llesiant, mae sefydliadau wedi bod yn ystyried a yw darparu gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg yn fodd priodol o gydymffurfio â safon pan nad oes swyddogion sy'n medru'r Gymraeg ar gael, e.e. wrth ddarparu cwrs hyfforddiant.

10.17 Dylid pwysleisio, fodd bynnag, nad yw darparu cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg yn ddisgwyliad ar bob sefydliad ym mhob cyd-destun ac y bydd gofyn i sefydliadau groesgyfeirio â'u hysbysiadau cydymffurfio a'r codau ymarfer perthnasol er mwyn penderfynu a oes disgwyliad iddynt wneud ai peidio.

10.18 Hyd yn oed pe na bai rheidrwydd cyfreithiol arnynt i wneud gall sefydliadau benderfynu bod cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg yn bwysig ar gyfer rhai cynulleidfaoedd a chyd-destunau ac yn gam naturiol tuag at sicrhau statws i'r Gymraeg mewn gwlad lle mae hi'n iaith swyddogol.

10.19 Mae'r rhod yn troi felly a'r disgwyl yw y bydd cynnydd yn y galw am wasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg, fel y nododd dyfarniad cyntaf Tribiwnlys y Gymraeg ar yr union fater hwn:


> Nid yw'r safonau sydd o dan sylw yn adlewyrchu, o angenrheidrwydd, y galw a fu yn y gorffennol ond yn gosod safonau ar gyfer y dyfodol, a hynny ar sail angen. Byddai sefydlu'r drefn newydd yn arwain, wrth gwrs, at greu galw am y gwasanaeth.[20]

10.20 Gan ymateb i'r galw cynyddol hwn, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol hefyd yn cynnwys cyfieithu i'r Gymraeg am y tro cyntaf yn ei gytundeb fframwaith ar gyfer caffael gwasanaethau cyfieithu ar gyfer y sector cyhoeddus. Dymuniad y Comisiynydd yw gweld y maes hwn yn parhau i aeddfedu a'r hyfforddiant penodol ar gyfer cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg yn cynyddu yn unol â'r galw.

[19] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/pdfs/wsi_20150996_mi.pdf (Cyrchwyd 11 Gorffennaf 2018).
[20] Tribiwnlys y Gymraeg, Achos TyG/WLT/165:
https://gov.wales/docs/wlt/170426-decision-pembs-county-council.pdf (Cyrchwyd 11 Gorffennaf 2018).

Mae cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg yn sgìl gwahanol i gyfieithu ar y pryd i'r Saesneg a dylid gwirio bod gan y cyfieithydd brofiad a chymhwyster perthnasol. Mae modd gwirio statws aelodaeth Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn hwylus ar wefan y Gymdeithas, er enghraifft.

Mewn sefyllfaoedd lle mae cyfieithu ar y pryd ddwy ffordd yn ofynnol dylid trefnu bod dau gyfieithydd ar y pryd ar gael: un ar gyfer pob iaith, yn enwedig pan fydd y cyfarfod yn para mwy na hanner awr. Ni fyddai'n ymarferol bosibl nac yn deg i un unigolyn gyfieithu ddwy ffordd am gyfnod estynedig. Hyn hefyd fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau ac egluraf i'r defnyddiwr.



### Arloesi yn y llysoedd: astudiaeth achos

10.21 Nid yw'r arfer o gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yn newydd ym mhob cyd-destun ac mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi arloesi yn y maes hwn drwy sefydlu gweithdrefn ar gyfer darparu cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg.

10.22 Mae Adran 22 Deddf Iaith 1993 yn rhoi'r hawl i unrhyw barti i achos siarad Cymraeg mewn gwrandawiad llys neu dribiwnlys yng Nghymru. Yn sgil gweinyddu'r hawl hon daethpwyd i'r casgliad bod angen gwneud mwy i hwyluso'r profiad o roi tystiolaeth yn Gymraeg. Dangosodd profiadau cynnar fod tystion a oedd wedi dewis rhoi tystiolaeth yn y Gymraeg yn dueddol o newid i'r Saesneg yn reddfol pe baent yn cael eu holi yn Saesneg. Penderfynwyd felly y dylid cynnig i dystion a hoffent gael y cwestiynau Saesneg wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg.

10.23 Datblygodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru drefn arholi arbennig o'r Saesneg i'r Gymraeg ar y cyd â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM er mwyn cefnogi'r datblygiad hwn yn y llysoedd nôl yn 2009. Wrth basio'r arholiad hwn gall aelodau cyfieithu ar y pryd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru dderbyn cydnabyddiaeth Maes Arbenigedd Proffesiynol: Cyfieithu ar y pryd yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd.


"Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r gofyniad i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg wedi cynyddu ac mae wedi bod yn allweddol i sicrhau bod tystion yn gallu parhau i roi eu tystiolaeth yn Gymraeg os holir hwy yn Saesneg. Ein profiad yw bod hyn yn bwysig iawn i dystion bregus a fyddai fel arall wedi troi i'r Saesneg."

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM



Dyma lais profiad cyfieithydd ar y pryd sy’n gweithio’n gyson yn y llysoedd:

“Dyma’r unig ffordd y cewch chi dreial neu wrandawiad cyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg o safbwynt tyst neu apelydd a phan 'dach chi dan deimlad mae cael clywed y cwestiynau yn Gymraeg yn help mawr.”



# 11 Cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau dwyieithog â chymorth cyfieithydd ar y pryd: cyngor ymarferol



## Cyfarfodydd cyhoeddus (pwyllgor, digwyddiad neu gynhadledd)

11.1 Y nod mewn cyfarfod dwyieithog yw galluogi pobl i ddefnyddio eu dewis iaith, gan wneud hynny yn gwbl naturiol a rhwydd. Dylai sefydliad bennu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod holl staff sefydliad yn gwybod sut y mae mynd ati i benderfynu a ddylai cyfarfod fod yn ddwyieithog, a sut mae trefnu gwasanaeth cyfieithydd ar y pryd i alluogi hynny. Dylid gwneud y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn a sicrhau bod modd iddynt gael mynediad mor rhwydd â phosibl atynt. Bydd dyletswyddau penodol ar rai sefydliadau o dan y drefn safonau ond gallai'r gweithdrefnau canlynol fod o gymorth i bob sefydliad sy'n dymuno trefnu cyfarfodydd dwyieithog effeithiol:



## Ystyriaethau wrth drefnu

- Cyn trefnu agenda, ystyried yr angen i gael siaradwyr sy'n gallu annerch yn Gymraeg ac annog cyfraniadau yn Gymraeg ganddynt yn rhagweithiol.
- Lle bo'n briodol, ystyried gwahodd cadeirydd sy'n siarad Cymraeg neu gadeirydd sy'n hyderus i hwyluso cyfarfod dwyieithog. Gellid ystyried llunio canllaw cryno er mwyn cefnogi cadeiryddion i gynnal cyfarfodydd dwyieithog llwyddiannus. (Ceir awgrymiadau ymarferol am bwyntiau i'w cynnwys mewn canllawiau i gadeiryddion a mynychwyr cyfarfod isod).
- Sicrhau bod pob cyflwyniad electronig yn ddwyieithog – hyd yn oed os nad yw'r sawl sy'n traddodi yn medru'r ddwy iaith.
- Sicrhau bod gennych wybodaeth am ddewis iaith mynychwyr mor gynnar â phosibl yn y broses drefnu a rhoi ystyriaeth lawn i hynny wrth drefnu'r agenda a'r amserlen. Gall yr wybodaeth yma effeithio ar sut y byddwch yn trefnu grwpiau trafod, er enghraifft.




## Trefnu cyfieithydd ar y pryd

- Sicrhau eich bod chi'n caniatáu digon o rybudd i drefnu cyfieithydd ar y pryd. Yn wir, mae'n ddoeth trefnu'r cyfieithydd ar y pryd cyn gynted ag y bydd dyddiad y cyfarfod wedi'i bennu er mwyn sicrhau argaeledd.
- Egluro wrth y cyfieithydd ar y pryd wrth drefnu'r gwasanaeth pa fath o gyfarfod sydd dan sylw – cyfarfod cyhoeddus, cyfarfod pwyllgor, cyfweliad, panel disgyblu, seminar ayb. Bydd angen cadarnhau hefyd beth fydd cyfeiriad y cyfieithu – i'r Saesneg yn unig neu i'r Gymraeg hefyd.
- Sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau, er enghraifft sicrhau nad yw'r cyfieithydd ar y pryd yn adnabod y sawl sy'n cael cyfweliad swydd. Bydd hyn yn osgoi lletchwithdod ar y dydd.
- Sicrhau y bydd y cyfieithydd ar y pryd yn derbyn yr holl ddogfennau perthnasol i'r cyfarfod ymlaen llaw, gan gynnwys gwybodaeth gefndirol a nodiadau siarad os ydynt ar gael.

- Sicrhau wrth drefnu ystafell ei bod hi'n addas ac o'r maint iawn, a bod yr acwsteg yn dderbyniol.
- Cynllunio a thrafod â'r cyfieithydd ymlaen llaw ble y bydd yn eistedd. Dylid sicrhau bod y cyfieithydd yn eistedd mewn man lle mae'n gallu gweld y siaradwyr yn glir ac yn gallu darllen eu gwefusau yn ôl y galw ond lle na fydd yn amharu ar wrandawiad y gynulleidfa nac yn tynnu gormod o sylw ato'i hun.
- Os bydd cyfarpar fideo gynadledda yn cael ei ddefnyddio dylid sicrhau y bydd y cyfieithydd yn gallu ei glywed yn iawn a gweld y sgrin er mwyn darllen gwefusau'r siaradwyr. Os bydd cyflwyniad electronig yn ymddangos ar y sgrin yn lle'r siaradwr dylid cynghori'r cyflwynydd ymlaen llaw i gyflwyno'n bwyllog gan fod hyn yn fwy heriol i'r cyfieithydd ar y pryd.
- Sicrhau hefyd fod lle i'r cyfieithydd osod ei bapurau ac unrhyw offer angenrheidiol yn gyfleus. Mae darparu dŵr i'r cyfieithydd hefyd yn arfer da.



## Hysbysebu'n briodol

- Sicrhau bod pob gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cyfarfod yn ddwyieithog gan gynnwys unrhyw arwyddion dros dro a godir er dibenion y cyfarfod.
- Datgan ar hysbysebion ac ar agenda cyfarfodydd y bydd hi'n bosibl siarad yn y naill iaith neu'r llall, ac y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Bydd angen manylu i ba gyfeiriad y darperir y gwasanaeth hefyd, h.y. gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg neu i'r Saesneg neu'r ddau.
- Ceisio darganfod ymlaen llaw sawl person fydd yn dymuno gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn sicrhau bod digon o offer ar gael.
- Gwneud defnydd o logo Iaith Gwaith wrth hysbysebu'r cyfarfod er mwyn sicrhau bod y mynychwyr yn gyfarwydd ag ef.
- Cylchredeg geirfa neu derminoleg berthnasol ymlaen llaw os bydd y cyfarfod yn trafod pwnc nad yw fel rheol yn cael ei drafod drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dosbarthu canllaw ymarferol i fynychwyr cyfarfod er mwyn eu hannog i gyfrannu at gynnal cyfarfod dwyieithog llwyddiannus. (Ceir awgrymiadau ymarferol am bwyntiau i'w cynnwys mewn canllaw isod).



## Cyn y cyfarfod

- Sicrhau bod digon o amser i osod offer cyfieithu ar y pryd cyn i'r cyfarfod ddechrau, bod yr offer yn lân ac yn gweithio, a bod modd i bobl gael gafael ar yr offer yn hawdd.
- Trefnu sgwrs fer â'r cyfieithydd er mwyn sicrhau ei fod yn deall natur y cyfarfod, trefniadau'r diwrnod ac egluro unrhyw newidiadau funud olaf i'r agenda.

- Sicrhau bod y cyfieithydd ar y pryd yn cael cyfle i gwrdd â chadeirydd y cyfarfod er mwyn sicrhau bod y cadeirydd yn deall rôl y cyfieithydd yn y cyfarfod ac ymateb i unrhyw gwestiynau ymlaen llaw.
- Briffio swyddogion sy'n siarad Cymraeg ymlaen llaw i'r cyfarfod a'u hannog i gyfrannu yn Gymraeg ac i droi'r drafodaeth yn ôl i'r Gymraeg lle bo hynny'n briodol.



## Yn ystod y cyfarfod

- Creu naws lle mae hi'n hollol amlwg y croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg yn ystod y cyfarfod drwy sicrhau bod y Gymraeg yn weledol yn ystod y cyfarfod ei hun, er enghraifft ar arwyddion neu faneri.
- Rhoi cyfle i'r cadeirydd neu'r cyfieithydd esbonio sut i ddefnyddio'r offer.
- Sicrhau bod aelodau o staff neu wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn bresennol mewn mannau amlwg fel wrth y ddesg groeso lle bo hynny'n berthnasol.
- Sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o ba swyddogion sy'n siarad Cymraeg drwy ddefnyddio nwyddau neu logos Iaith Gwaith.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chlywed yn ystod y digwyddiad. Lle mae'n bosibl, gall y cadeirydd gyfarch yn ddwyieithog ac arwain drwy esiampl gan barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol fel bod naws ddwyieithog yn cael ei chyfleu o'r cychwyn cyntaf. Dylid annog cadeiryddion di-Gymraeg i gyfarch yn ddwyieithog ac i wahodd siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu.

## Canllaw i gadeiryddion

Mae gan gadeiryddion rôl allweddol mewn sicrhau bod pobl yn teimlo'n hyderus yn defnyddio'u dewis iaith mewn cyfarfod. Gall cadeirydd gadeirio yn Gymraeg yn unig os yw'n dymuno a chyfrannu at sicrhau bod y cyfarfod yn rhedeg yn llyfn mewn dwy iaith drwy:

- Gymryd rôl arweiniol a dangos drwy esiampl mai'r peth naturiol i bob siaradwr Cymraeg yw siarad yn Gymraeg gan ddefnyddio cymaint o Gymraeg â phosibl yn ystod y cyfarfod.
- Annog a chefnogi trafodaeth yn y ddwy iaith.
- Croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ar ddechrau ac yn ystod y cyfarfod.
- Egluro bod croeso i bobl ymateb yn Gymraeg i bwyntiau a sylwadau a wneir yn Gymraeg neu yn Saesneg os ydynt yn dymuno.

- Agor a chau pob cyfarfod yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.
- Cyflwyno'r cyfieithydd ar y pryd, egluro'r drefn cyfieithu ar y pryd ar ddechrau'r cyfarfod, profi'r offer a sicrhau bod gan bawb offer sy'n gweithio.
- Helpu'r cyfieithydd drwy sicrhau bod pawb yn siarad yn ei dro: gellid pwysleisio ar y dechrau ei bod hi'n bwysig nad yw mynychwyr yn siarad ar draws ei gilydd er mwyn y cyfieithydd.
- Troi iaith y cyfarfod yn ôl i'r Gymraeg os bydd yr iaith yn dueddol o aros yn Saesneg yn dilyn cyfraniad neu gwestiwn yn Saesneg.
- Atgoffa mynychwyr eto fod modd cyfrannu yn Gymraeg ac yn Saesneg cyn sesiynau holi ac ateb. Dylid hefyd atgoffa'r rheini sy'n defnyddio offer cyfieithu ei bod hi'n bosibl y bydd angen iddyn nhw ddefnyddio'r offer cyfieithu eto yn ystod y rhan yma o'r cyfarfod.

**Canllaw i fynychwyr cyfarfodydd dwyieithog**

- Cofiwch fod croeso i chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod ac y bydd offer ar gael er mwyn sicrhau bod pawb yn eich deall.
- Cofiwch ddarparu copi o areithiau a draddodir neu gyflwyniadau electronig ymlaen llaw. Trafodwch â'r trefnydd ai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau cyflwyniad electronig dwyieithog ai peidio.
- Cofiwch ei bod hi'n anodd cyfieithu jargon, termau technegol, jôcs, barddoniaeth ayb.
- Cofiwch oedi i sicrhau bod pawb yn gwisgo, neu wedi ailwisgo, eu clustffonau cyn siarad.
- Cofiwch siarad yn bwyllog ac yn eglur gan geisio sicrhau bod y cyfieithydd ar y pryd yn gallu gweld eich wyneb wrth i chi siarad. Mae hyn yn arbennig o wir os ydych chi'n darllen yn uchel gan fod tuedd gan bobl i siarad llawer yn gyflymach ac edrych i lawr wrth wneud. Gall hyn fod yn heriol i'r cyfieithydd ar y pryd yn ogystal â'r sawl sy'n gwrando ar y gwreiddiol.

# Cyfarfodydd drwy gyswllt fideo

## Astudiaeth achos arloesi drwy dechnoleg: Cartrefi Cymunedol Gwynedd

"Yn draddodiadol, er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog byddai'n rhaid i holl aelodau bwrdd y cwmni ymgynnull mewn un lleoliad penodol lle'r oedd y cyfieithydd a'r cyfarpar cyfieithu wedi'u lleoli. Gallai hyn fod yn dipyn o her mewn sir mor fawr, ac yn fwy heriol fyth wrth i'r cwmni dyfu a gweithredu ar draws rhanbarth y gogledd. Ein gweledigaeth felly oedd i sicrhau bod cyfarfodydd yn gallu digwydd dros fideo yn gwbl ddwyieithog heb inni orfod trefnu cael cyfieithwyr ym mhob safle.

Daeth i'r amlwg nad oedd datrysiad syml, fodd bynnag, ac nid oedd technoleg addas yn bodoli eisoes a fyddai'n diwallu ein gofynion. Un sianel sain sydd i systemau fideo gynadledda ac felly rhaid oedd inni fynd ati i ddatblygu ein system ddwyieithog ein hunain. Wrth i'n tîm TG gydweithio â chyflenwyr ac arbrofi â thechnoleg, darganfuwyd bod modd ychwanegu elfen at y system fideo gynadledda a oedd eisoes yn cael ei defnyddio gennym er mwyn caniatáu dewis i wrando ar gyfarfod fideo yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Rydym bellach yn gallu cynnal unrhyw gyfarfod ar draws nifer o safleoedd gan ddefnyddio ein datrysiad fideo gynadledda gwreiddiol a'r cyfan sy'n rhaid i ddefnyddwyr ei wneud yw defnyddio clustffonau a dewis iaith. Mae hyn yn ein galluogi i leihau amser teithio, bod yn fwy rhagweithiol, lleihau costau a gweithredu'n fwy effeithlon. Rydym yn falch iawn o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni ac yn gweld potensial enfawr i sefydliadau a chwmnïau ar draws Cymru i ddilyn yr esiampl yma er mwyn sicrhau bod cyfarpar ar gael i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat."



## 12 Cynnal cyfarfodydd preifat neu bersonol â chymorth cyfieithydd ar y pryd


12.1 Fel y nodwyd eisoes, yn ddelfrydol byddai sefydliadau yn gwneud y mwyaf o sgiliau ieithyddol swyddogion neu staff er mwyn cynnal cyfarfodydd preifat neu bersonol yn newis iaith yr unigolyn heb ddibynnu ar wasanaeth cyfieithu. Yn wir, bydd gofynion penodol ar rai sefydliadau i wneud hyn yn unol â'u hysbysiadau cydymffurfio. Nid yw hynny o hyd yn bosibl, fodd bynnag, yn enwedig felly pan fo'r cyfarfod rhwng rhywun ag arbenigedd penodol ac unigolyn arall. Gall fod angen cynnal cyfarfodydd o'r fath â chymorth cyfieithydd ar y pryd os yw unigolyn yn dymuno neu angen defnyddio'r Gymraeg yn ystod cyfarfod.

12.2 Gall y rhain fod yn gyfarfodydd preifat neu bersonol lle mae'r pwnc trafod yn un sensitif neu emosiynol, pan gaiff gwybodaeth bersonol ei datgelu neu ei thrafod, neu pan nad oes modd i'r unigolyn ddeall neu gyfathrebu'n effeithiol mewn iaith ar wahân i'w famiaith (e.e. plant ifanc uniaith neu bobl hŷn sy'n dioddef o ddementia ac wedi colli meistrolaeth o ail iaith).

12.3 Mae cyfarfod o'r fath yn rhoi cyfieithydd ar y pryd mewn sefyllfa gwbl wahanol i fod mewn cyfarfod cyhoeddus, cynhadledd neu bwyllgor. Mae presenoldeb y cyfieithydd yn llawer amlycach. Bydd angen ystyried yn ofalus ymlaen llaw felly ble fyddai'n briodol i'r cyfieithydd eistedd: bydd hyn yn dibynnu i raddau ar natur a diben y cyfarfod a phwy sy'n bresennol ynddo. Bydd gan rai sefydliadau gyfleuster i'r cyfieithydd ar y pryd eistedd y tu allan i'r brif ystafell gyfarfod a chyfrannu at y cyfarfod o bell gydag offer sefydlog: gall hyn fod yn fwy defnyddiol a phriodol mewn rhai cyd-destunau.

12.4 Wrth drefnu cyfieithydd ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd preifat neu bersonol dylid ystyried ymlaen llaw a oes angen i'r cyfieithydd fod ag arbenigedd mewn sector penodol (e.e. iechyd neu gyfiawnder) os yw'r hyn a drafodir yn dechnegol neu'n debygol o gynnwys termau anghyfarwydd.

12.5 Fel y nodir yn 10.1, mae defnyddio cyfieithydd sy'n aelod o gorff proffesiynol yn fodd o sicrhau bod y cyfieithydd wedi ymrwymo i god ymddygiad proffesiynol ac felly'n fodd o warchod buddiannau'r sawl sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod.



Mae'n hanfodol sicrhau ymlaen llaw nad oes buddiant personol gan y cyfieithydd ar y pryd yn y cyfarfod. Bydd hyn yn osgoi embaras, risg a lletchwithdod sylweddol ar ddiwrnod y cyfarfod a allai arwain at oedi pellach pe bai angen ad-drefnu. Dylid rhannu gwybodaeth ddigonol â'r cyfieithydd ar y pryd ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn sicrhau hyn gan bwysleisio pan fo gwybodaeth yn gyfrinachol neu'n sensitif.

12.6 Mae'n bwysig egluro wrth bawb sy'n mynd i fod yn bresennol yn y cyfarfod beth yw rôl y cyfieithydd gan ei gwneud yn glir fod y cyfieithydd yn parchu cyfrinachedd, yn ddiduedd ac na fydd yn mynegi unrhyw farn na dehongliad personol. Dylai sefydliadau ystyried datblygu ffordd safonol o gyflwyno'r cyfieithydd mewn cyfarfodydd o'r math hwn. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol mewn cyfarfodydd â phobl ifanc neu fregus nad ydynt o reidrwydd yn gyfarwydd â derbyn gwasanaethau cyfieithu. Dylid sicrhau bod pawb yn deall y bydd y cyfieithydd yn cyfieithu pob gair heb gynnig barn neu gyngor ac mai cyfryngwr yw'r cyfieithydd ac na ddylid cyfeirio sylwadau neu gwestiynau yn uniongyrchol ato ef.

12.7 Gall fod yn ddefnyddiol i gyfarfod â'r cyfieithydd ymlaen llaw er mwyn ei friffio ac er mwyn sicrhau bod y cyfieithydd yn deall beth sy'n ddisgwyliedig ganddo ac yn deall natur y cyfarfod. Bydd angen rhoi rhybudd i'r cyfieithydd os yw hi'n debygol y bydd materion sensitif neu ddirdynnol yn codi a all beri gofid neu anesmwythyd, er enghraifft. Dylai sefydliadau fod yn effro i'r straen emosiynol y gall rhai achosion ei beri i'r cyfieithydd ar y pryd ac ystyried dulliau ymarferol o gefnogi'r cyfieithydd yn eu sgil – yn ystod ac yn dilyn y cyfarfod.

12.8 Gellid gofyn i'r cyfieithydd ar y pryd ymlaen llaw am arweiniad ynghylch gosodiad yr ystafell a sicrhau bod y cyfieithydd yn gyfforddus yn cael ei osod mewn man penodol yn yr ystafell. Dyma gyfle hefyd i drafod ystyriaethau ymarferol fel sut orau i gyfieithydd dynnu sylw siaradwyr er mwyn eu hannog i siarad yn arafach neu ailadrodd os oes angen. Bydd cyfieithydd ar y pryd yn arfer siarad yn y trydydd person mewn sefyllfaoedd fel hyn, e.e. 'mae'r cyfieithydd yn cael trafferth clywed'.

12.9 Mae'n syniad da hefyd i gynnal sesiwn dadfriffio â'r cyfieithydd yn dilyn y cyfarfod er mwyn i'r cyfieithydd allu nodi unrhyw amwyster neu gamgymeriadau a wnaethpwyd. Gall fod yn werthfawr, er enghraifft, sicrhau bod y cyfieithydd yn hapus ei fod wedi trosglwyddo pob neges yn gywir ond ni fyddai'n briodol gofyn barn y cyfieithydd am gynnwys y cyfarfod.

12.10 Lle bo gofyn am ymdriniaeth sensitif mewn cyfarfod neu apwyntiad neu pan na fyddai defnyddio cyfieithu ar y pryd yn briodol nac yn effeithiol, efallai bod modd ystyried defnyddio'r dull o gyfieithu'n olynol. Gall y math hwn o gyfieithu fod yn fwy addas ar gyfer cyfarfodydd gyda phlant ifanc neu bobl hŷn, neu pan fo'r sawl sy'n mynychu'r cyfarfod yn drwm eu clyw. Gweler 10.3 – 10.13 am ragor o ystyriaethau yn ymwneud â chyfieithu olynol.





# 13 Offer cyfieithu ar y pryd

13.1 Fel y nodwyd eisoes, mae gan y rhan fwyaf o gyfieithwyr sy'n cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd eu hoffer eu hunain, ond mae modd i sefydliadau hefyd fuddsoddi yn eu hoffer eu hunain neu logi offer cyfieithu ar y pryd.[21]

13.2 Os bydd sefydliad yn buddsoddi yn eu hoffer cyfieithu eu hunain, rhaid cadw mewn cof y bydd costau ynghlwm â chynnal a chadw yr offer a bydd angen sicrhau bod yr offer yn cael ei lanhau'n briodol ar ôl ei ddefnyddio.

13.3 Mae amryw o wahanol fathau o offer cyfieithu ar y pryd ar gael a gellir trafod eich anghenion â'r darparwyr wrth logi neu brynu offer. Systemau isgoch neu radio a ddefnyddir gan amlaf yng Nghymru ac mae'n hanfodol cynllunio'r math o offer a ddefnyddir mewn digwyddiad yn ofalus er mwyn osgoi trafferthion ymarferol ar y diwrnod. Dyma rai ystyriaethau i'w cadw mewn cof:

- Dylid bod yn ymwybodol o ba gyfarpar sain arall a ddefnyddir mewn lleoliad/ystafell er mwyn sicrhau na fydd signalau'n cystadlu neu'n gwrthdaro â'i gilydd. Os oes system isgoch wedi ei gosod mewn ystafell i gynorthwyo rhai sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw, ni ellir defnyddio offer cyfieithu ar y pryd sydd hefyd yn defnyddio trosglwyddydd isgoch symudol. Gall defnyddio dwy system isgoch ar yr un pryd achosi ymyrraeth â'r sain. Yn yr un modd, mae sgriniau plasma yn allyrru signalau isgoch a gall y signalau hynny hefyd wrthdaro â systemau cyfieithu isgoch.
- Bydd angen ystyried defnyddio sawl set wahanol o offer mewn sesiynau lle mae sawl grŵp trafod. Nid yw signalau isgoch yn gallu treiddio drwy waliau solet ac felly byddai modd defnyddio mwy nag un set o offer isgoch os caiff y grwpiau trafod eu cynnal mewn gwahanol ystafelloedd. Ni fyddai cynnal dau weithdy mewn gwahanol rannau o un ystafell fawr yn caniatáu defnyddio dwy set o offer isgoch fodd bynnag gan na fyddai modd gwahanu'r signalau. Nid oes anhawster defnyddio offer isgoch a radio ochr yn ochr, ac nid oes anhawster defnyddio mwy nag un sianel ar offer radio a chymryd bod mwy nag un ddyfais ar gael ar gyfer y cyfieithwyr er mwyn cysylltu â gwahanol sianelau.

[21] Ceir rhestr o'r sefydliadau sy'n cynnig llogi offer cyfieithu ar pryd ar wefan Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru: https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/cyfieithu-ar-y-pryd/basdata-offer-cap (Cyrchwyd 25 Gorffennaf 2018).

- Mae rhai mathau o offer cyfieithu ar y pryd yn fwy addas na'i gilydd os yw'r cynnwys a fydd yn cael ei gyfieithu yn sensitif neu'n gyfrinachol. Mae offer cyfieithu ar y pryd sy'n defnyddio isgoch neu offer radio digidol yn fwy diogel nag offer radio analog er enghraifft. Mewn sefyllfa lle byddai angen cyfieithu ar y pryd ar gyfer mwy nag un cyfarfod mewn lleoliad ar yr un pryd, gellir atal pobl rhag derbyn cyfieithiad o ystafell arall drwy:

    - Ddefnyddio system isgoch ym mhob ystafell.
    - Defnyddio system radio digidol ym mhob ystafell a chloi'r sianeli ar y derbynyddion er mwyn sicrhau na all neb newid y sianel. Noder bod signal radio yn treiddio drwy waliau ac y gall y pellter amrywio fesul system.
    - Defnyddio system isgoch mewn un ystafell a system radio mewn ystafell arall. Ni fyddai modd i'r derbynyddion isgoch dderbyn y signal radio.

## Systemau i gynorthwyo pobl fyddar neu drwm eu clyw

13.4 Sicrhewch eich bod chi'n holi mynychwyr cyn unrhyw gyfarfod neu ddigwyddiad a fydd angen dolen sain ar y rhai sy'n gwisgo cymhorthion clyw. Mae cymhorthion clyw yn gallu amrywio'n fawr ac nid pob system sy'n gydnaws â'i gilydd. Pan fydd gwasanaeth cyfieithu'n cael ei ddefnyddio bydd angen gwirio ai offer radio neu isgoch fydd ar waith a darparu dolenni gwddf neu gyfarpar priodol arall i gyd-fynd â'r cymhorthion clyw lle bo modd. Bydd gan rai defnyddwyr eu systemau eu hunain.


13.5 Bydd gan rai lleoliadau/ystafelloedd eu systemau mewnol sefydlog wedi eu gosod i gynorthwyo pobl fyddar neu drwm eu clyw, er enghraifft system dolen sain magnetig neu system isgoch sy'n cysylltu â chymhorthion clyw. Mae'n bwysig felly cael cymaint o wybodaeth â phosibl am gyfleusterau'r lleoliad mor fuan â phosibl wrth drefnu.

13.6 Os oes system isgoch sefydlog wedi ei gosod mewn ystafell gyfarfod, mae'n debygol mai un sianel fydd i'r system a honno i'w defnyddio i gysylltu â chymhorthion clyw. Noder bod systemau isgoch ar gael sydd â mwy nag un sianel a gwelir y rhain mewn canolfannau mwy, tebyg i theatrau, ar brydiau. Os defnyddir lleoliad o'r fath, dylech holi sut y defnyddir y sianelau ar y system isgoch yn y lleoliad hwnnw. Gall fod modd archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio un sianel ar gyfer teclynnau cymorth clyw rhai nad ydynt angen cyfieithiad, a sianel arall ar gyfer ffrydio'r cyfieithiad. Wrth wneud hynny, byddai'n rhaid gofalu bod digon o dderbynyddion addas ar gael sy'n gallu cysylltu â sianel y cyfieithiad.

13.7 Bydd gofyn am gynllunio gofalus mewn sefyllfa lle bydd mynychwyr sy'n gwisgo cymhorthion clyw ac nad ydynt yn dymuno derbyn cyfieithiad. Os defnyddir ystafell lle mae system dolen sain magnetig wedi ei gosod o amgylch yr ystafell, noder nad yw'n debygol y bydd dolen sain o amgylch y gwddf yn gweithio ochr yn ochr â'r system honno. Byddai hynny'n rhwystro unrhyw un sy'n gwisgo cymhorthydd clyw rhag gallu gwrando ar y cyfieithiad.

13.8 Mewn sefyllfa o'r fath, gellid ystyried defnyddio ystafell sydd â system isgoch wedi ei gosod ynghyd â derbynyddion addas a dolenni gwddf er mwyn darparu ar gyfer y rhai nad ydynt yn dymuno derbyn cyfieithiad, a defnyddio offer radio gyda dolenni gwddf ar gyfer y rhai sy'n dymuno derbyn cyfieithiad drwy'r teclyn cymorth clyw. Gan ddibynnu ar natur y digwyddiad, byddai hefyd modd archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio ystafell sydd heb system sefydlog wedi ei gosod i gynorthwyo pobl fyddar neu drwm eu clyw, a defnyddio gwahanol sianelau ar offer radio neu fwy nag un system radio. Byddai'r offer radio yn darparu ar gyfer y rhai nad ydynt am dderbyn cyfieithiad a'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu ar pryd a byddai angen dolen gwddf ar bawb sy'n gwisgo'r cymhorthion clyw. Rhaid fyddai rhoi cyfarwyddyd clir o ran pa sianel neu pa dderbynyddion i'w defnyddio ar gyfer y naill bwrpas a'r llall.

13.9 Noder nad cyfrifoldeb y cyfieithydd ar y pryd yw gwneud y trefniadau hyn ond mae angen sicrhau eich bod yn trafod yr anghenion wrth drefnu gwasanaeth cyfieithydd.



comisiynyddygymraeg.cymru
welshlanguagecommissioner.wales